Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

# Dyfodol rheoli tir yng Nghymru

Mawrth 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

# Dyfodol rheoli tir yng Nghymru

Mawrth 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Mark Reckless AC (Cadeirydd)**
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



**Jayne Bryant AC**
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Huw Irranca-Davies AC**
Llafur Cymru
Ogwr



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Simon Thomas AC**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynnwys


Argymhellion ........ 5

Rhagair y Cadeirydd ........ 9

Cyflwyniad ........ 10

Rhan un – Rheoli tir a Brexit: yr heriau uniongyrchol ........ 14

01. Masnach amaethyddol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ........ 17

02. Datganoli a dyfodol pwerau'r Undeb Ewropeaidd ........ 27

03. Cyllid ........ 34

04. Llafur a mudo ........ 38

05. Trefniadau pontio ........ 42

Rhan dau – Cynigion ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth a'r economi wledig yng Nghymru ........ 46

06. Mecanweithiau ar gyfer taliadau a chymorth yn y dyfodol ........ 49

07. Canlyniadau cynaliadwy o ran rheoli tir ........ 56

Newid yn yr Hinsawdd ........ 58

Cynhyrchu bwyd ........ 60

Coedwigaeth a choetiroedd ........ 63

Bioamrywiaeth ........ 64

Mynediad i'r dirwedd ........ 66

Bywyd cefn gwlad ........ 68

Atodiad A - Tystiolaeth ysgrifenedig ........ 71

Atodiad B – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor ........ 73

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth y DU sicrhau mynediad di-dariff a di-gwota i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd Cymru. ........................................................................ (Tudalen 26)

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gael llais cydradd wrth y bwrdd trafod yn ystod y trafodaethau ar fynediad i'r Farchnad Sengl. Yn ystod y trafodaethau, dim ond safbwynt y mae cytundeb yn ei gylch yn y DU y caiff Llywodraeth y DU ei gyflwyno, nid safbwynt sy'n cael ei arwain gan y DU. ................................ (Tudalen 26)

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth y DU ddiogelu buddiannau cynhyrchwr cig oen Cymru a chynnig eglurder cyn gynted â phosibl am ei strategaeth negodi ynghylch dyfodol cwota cig oen Seland Newydd ar gyfer y DU. ........... (Tudalen 26)

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag Adrannau perthnasol Llywodraeth y DU i gynyddu'n sylweddol ei hymdrechion masnach yn rhyngwladol er mwyn datblygu marchnadoedd allforio newydd ar gyfer cig oen Cymru a chryfhau'r marchnadoedd presennol. ......................................... (Tudalen 26)

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Hybu Cig Cymru gynyddu ei ymdrechion i farchnata cig oen Cymru mewn marchnadoedd cartref a rhyngwladol er mwyn helpu cynhyrchwyr i ymateb i'r heriau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dylid paratoi strategaeth farchnata newydd i ymdrin â'r materion hyn o fewn y 12 mis nesaf. Rhaid i'r strategaeth ymdrin yn briodol ag anghenion ffermwyr yr ucheldir. ................................................................................................................................ (Tudalen 26)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am drafodaethau dwyochrog gyda Llywodraeth y DU ar fyrder i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa gyfreithiol a chyfansoddiadol mewn perthynas â phwerau a gedwir yn ôl ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. ..................................................................... (Tudalen 32)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth y DU ymrwymo i ddatblygu fframweithiau rheoleiddiol a pholisi yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig mewn partneriaeth a sicrhau cydraddoldeb rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. .................................................................... (Tudalen 32)

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gryfhau'r mecanweithiau cydweithio, megis datblygu 'Cyngor Gweinidogion y DU', yn unol ag awgrym Llywodraeth Cymru. Dylid sefydlu mecanwaith cymrodeddu annibynnol er mwyn datrys anghydfodau. ............................................... (Tudalen 33)

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth y DU ymrwymo i gynnal y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth ar y lefelau sydd ar gael o dan y PAC ar hyn o bryd tan o leiaf 2020/21. Ar ôl hynny, y meincnod pwysicaf fydd cylch nesaf y PAC, o 2021/27. Ni ddylid defnyddio fformiwla Barnett i gyfrifo'r cyllid hwn wedyn. ......... (Tudalen 37)

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddyrannu cyllid ar y lefelau sydd ar gael o dan y PAC ar hyn o bryd tan 2020/21 a dylai egluro ei sefyllfa mewn perthynas â chyllid ar gyfer 2020/21 cyn gynted â phosibl. ........................................................................................................................ (Tudalen 37)

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth y DU gydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion llafur Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn eu trafodaethau ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd. ............................ (Tudalen 41)

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddechrau gweithio ar unwaith i asesu'r prinder sgiliau y gall busnesau Cymru eu hwynebu yn sgil lleihad posibl mewn gweithwyr mudol. ........................................ (Tudalen 41)

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth sgiliau ar gyfer y sector o fewn y 12 mis nesaf, sy'n amlinellu sut y caiff unrhyw brinder sgiliau ei ddiwallu ynghyd â chyfleoedd newydd drwy gyfrwng polisïau hyfforddi ac addysg. ................................................................................................... (Tudalen 41)

**Argymhelliad 14.** Rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sicrhau bod ystyried trefniadau pontio yn rhan ganolog o rôl Pwyllgor Gweinidogion arfaethedig y DU. ...................................................................................... (Tudalen 44)

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sicrhau cyfnod pontio ar gyfer trefniadau cyllido yn y dyfodol, yr un hyd â gweddill cylch cyllido presennol y PAC a'r cylch cyllido nesaf. .................................................... (Tudalen 44)

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system o gymorth sylfaenol sy'n seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy a chynhyrchu bwyd o ansawdd uchel. Dylai cyflwyno system o'r fath fod yn amodol ar gyfnod pontio o hyd nes ddiwedd cylch nesaf y PAC. .......................................................................... (Tudalen 55)

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynllun ar gyfer y diwydiant llaeth, drwy ymgynghori â chynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr. Dylai'r cynllun hwn nodi sut y bydd cynhyrchwyr, dosbarthwyr a chyflenwyr yn gallu pontio o'r model cyllido presennol i system gymorth yn seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy. ........................................................................................................ (Tudalen 55)

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn y dyfodol ar gyfer rheolwyr tir yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau sy'n cyfrannu at y targedau uchelgeisiol ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru fel y nodir yn neddfwriaeth Cymru megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016. ...................................................... (Tudalen 59)

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion i liniaru ac atal llifogydd naturiol, a hynny ar fyrder. .......................................................... (Tudalen 59)

**Argymhelliad 20.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu diwylliant bwyd yng Nghymru sy'n; rhoi gwerth ar gynnyrch lleol; lleihau milltiroedd bwyd ac ôl-troed carbon; a diogelu safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Dylai hyn sicrhau mynediad i'r Farchnad Sengl i'n cynhyrchwyr ac yn cynnal ein henw da am nwyddau o ansawdd uchel a wnaed yng Nghymru. .................................. (Tudalen 62)

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru anelu at gynyddu'r cynnyrch o Gymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus ac adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar lefelau caffael presennol a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol. .................................................................................................................. (Tudalen 62)

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr bwyd yng Nghymru i gynyddu gwerthiant cynnyrch o Gymru, gan gynnwys llysiau, ac adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf. ............................................................................................................ (Tudalen 62)

**Argymhelliad 23.** **Dylai cyllid ar gyfer rheolwyr tir yn y dyfodol gefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth yng Nghymru yn ogystal â hyrwyddo dull gofodol o reoli tir. Dylai unrhyw ddull o'r fath gefnogi amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru. ................................ (Tudalen 65)**

**Argymhelliad 24.** **Rydym yn argymell bod cymorth i reolwyr tir yng Nghymru yn y dyfodol yn gwobrwyo rheolwyr tir am wella mynediad i gefn gwlad. Dylai'r cyllid hefyd adlewyrchu i ba raddau y mae llwybrau mynediad yn cael eu cynnal a'u cadw a'u hyrwyddo. ........................................................................................ (Tudalen 67)**

**Argymhelliad 25.** **Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn y dyfodol yn cwmpasu arferion gorau cynlluniau presennol megis LEADER er mwyn sicrhau na chaiff gwersi a buddsoddiad hollbwysig eu colli pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. ................................... (Tudalen 70)**

**Argymhelliad 26.** **Yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU rhaid i Lywodraeth Cymru bwysleisio i ba raddau y mae cymorth i amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn sail i hyfywedd cymunedau gwledig a diwylliant ac iaith Cymru, sydd felly'n atgyfnerthu'r angen i barhau â'r lefelau cymorth presennol. ... (Tudalen 70)**

# Rhagair y Cadeirydd

Ers dros bedwar degawd, mae penderfyniadau ynghylch y ffordd y mae cynnyrch amaethyddol yn cael ei ffermio, ei werthu a'i gefnogi'n ariannol wedi cael eu gwneud ar lefel Ewropeaidd. Yn dilyn canlyniad y refferendwm fis Mehefin diwethaf, mae gan Gymru bellach gyfle i greu'r polisïau hynny'n nes gartref.

Ond dim ond drwy sicrhau nad ydym ni, yng Nghymru, ar ein colled oherwydd y bleidlais i adael y gallwn fanteisio ar y cyfle hwn i adfywio ein cymunedau gwledig.

Er mwyn sicrhau hyn, gofynnais am ddau ymrwymiad yn ystod hydref y llynedd:

- Galwais ar Lywodraeth y DU i roi sicrwydd y byddai Cymru yn parhau i dderbyn y lefel o gyllid ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig y mae'n ei chael ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd, ac na fyddai fformiwla Barnett yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r cyllid hwn.
- Galwais hefyd ar Lywodraeth Cymru i wneud ymrwymiad i wario'r swm hwnnw ar amaethyddiaeth a datblygu gwledig.

Rydym bellach yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn parhau i gael mynediad llawn i'r Farchnad Sengl Ewropeaidd. Mae'n hanfodol i lwyddiant y diwydiant amaethyddol; byddai rhai sectorau cynhyrchu bwyd yng Nghymru mewn perygl mawr pe bai rhaid iddynt fasnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd.

Mae'r gallu i wneud cyfreithiau ar amaethyddiaeth wedi'i ddatganoli i Gymru ers 1999. Ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu creu cymorth cyllido (a rheoliadau) i gyd-fynd â'n blaenoriaethau ar gyfer cymunedau gwledig ac i gefnogi rheolwyr tir i gynhyrchu ystod o ganlyniadau – gan gynnwys bwyd, diogelu bioamrywiaeth, lliniaru newid yn yr hinsawdd a chymunedau gwledig cydnerth – sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gymdeithas.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y DU, yn enwedig o ran rheoliadau sy'n cefnogi cynhyrchwyr, rydym yn galw am fecanwaith i ddod â Gweinidogion o bob un o bedair gwlad y DU ynghyd i gytuno ar fframwaith cyffredinol ar gyfer y DU gyfan. Yn hanfodol i'w lwyddiant bydd parch cydradd rhwng yr holl weinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU, a dull cymrodeddu yn gefn iddo os na ddeuir i gytundeb. Fel hyn gallwn greu polisi a fframwaith rheoleiddiol wedi'i gytuno gan y DU, ac nid wedi'i arwain gan y DU.

Rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad ac a'n croesawodd ni yn ystod ein hymweliadau - o ffermwyr i grwpiau diogelu'r amgylchedd, coedwigwyr ac academyddion. Rydym yn ffodus bod cymaint o bobl o Gymru a'r tu hwnt iddi wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i lywio ein gwaith. Rydym wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y safbwyntiau a glywsom ac adlewyrchu cyfansoddiad unigryw y sector amaethyddol yma sy'n chwarae rhan mor fawr wrth ddenu pobl i ymweld â Chymru.

O gofio cryfder y dystiolaeth a gawsom, a'r cyfeiriad presennol o ran polisi ar draws Ewrop (gan gynnwys y DU), tuag at gefnogi cymunedau gwledig a darparu taliadau cymhelliant am wasanaethau'r ecosystem, mae'n debygol y bydd golwg wahanol iawn ar y cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol. Fodd bynnag, rydym yn glir y bydd dyfodol ein tirweddau a'n heconomïau yn parhau i gael ei reoli gan ffermwyr, a chaiff y rôl hon ei chefnogi gan arian cyhoeddus.

# Cyflwyniad

**1.** Sefydlwyd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2016. Yn fuan wedyn, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad gyda rhanddeiliaid i drafod eu blaenoriaethau ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig yng Nghymru. Y flaenoriaeth amlwg oedd y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

**2.** Penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i ddyfodol polisïau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru fel ei ddarn cyntaf o waith gan y bydd canlyniad y refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu newid sylfaenol yn y ffordd y caiff y sector ei ariannu a'i lywodraethu.

## Cylch gorchwyl

**3.** Nod yr ymchwiliad hwn oedd datblygu egwyddorion i fod yn sail i bolisïau amaethyddol a datblygu gwledig newydd i Gymru. Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i bobl:

- Pa ganlyniadau sylfaenol yr hoffem eu gweld yn deillio o bolisïau ym meysydd amaethyddiaeth, rheoli tir a datblygu gwledig?
- Pa wersi y gallwn eu dysgu o'r polisïau sydd ar waith ar hyn o bryd a pholisïau'r gorffennol? Beth am y polisïau sydd ar waith mewn mannau eraill?
- I ba raddau y dylai Cymru ddatblygu ei pholisïau ei hun ym meysydd amaethyddiaeth, rheoli tir a datblygu gwledig, neu a ddylai'r wlad fod yn rhan o fframwaith polisi ac ariannol ehangach a gaiff ei roi ar waith ledled y DU?

## Dull gweithredu

- Gofynnodd y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r cwestiynau hynny a chafodd 31 o ymatebion;
- Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gydag amrywiol randdeiliaid a Llywodraeth Cymru;
- Cyfarfuom â rhanddeiliaid ym mis Hydref 2016 i drafod y materion hyn;
- Ymwelwyd â ffermydd yng Ngheredigion ac Eryri i ddysgu mwy am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu ffermwyr a'r rhai sy'n gweithio yn yr economi wledig. Cyfarfuom hefyd â chynhyrchwyr yng Ngheredigion i glywed am eu pryderon ynghylch cael mynediad i farchnadoedd ehangach ar gyfer cynnyrch Cymru;
- Ymwelwyd ag Iwerddon i glywed yn uniongyrchol am waith cynllunio a monitro y rhaglen Burren, sy'n rhaglen dra llwyddiannus i adfer cynefinoedd bioamrywiaeth.

## Strwythur yr adroddiad

**4.** Mae'r adroddiad hwn ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru yn amlinellu'r goblygiadau i'r sector pwysig hwn ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n amlwg o'n trafodaethau helaeth gyda rhanddeiliad bod cryn ansicrwydd ynghylch beth fydd hyn yn ei olygu i ddyfodol ffermio a chymunedau gwledig.

**5.** Mae'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu bod y berthynas rhwng Cymru a Llywodraeth y DU wedi newid yn sylweddol. Ni fydd penderfyniadau ar bolisi a chyllid yn cael eu gwneud ar lefel yr UE mwyach - bellach bydd yn rhaid iddynt gael eu gwneud rhwng holl wledydd y DU. Bydd yn rhaid i'r pedair gwlad gytuno ar flaenoriaethau cyffredin yn hytrach na Llywodraeth y DU

yn siarad ar ein rhan ym Mrwsel. Bydd hyn yn gofyn am berthnasoedd newydd rhwng Llywodraethau ar lefel y DU.

## Rhan un – Rheoli Tir a Brexit: yr heriau uniongyrchol

**6.** Mae rhan gyntaf yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r heriau uniongyrchol sy'n wynebu ein sector amaethyddol o ganlyniad i'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

### Prif gasgliadau

#### Mynediad i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r risgiau yn sgil methu â sicrhau cytundeb masnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd yn ddifrifol – bydd masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd yn andwyol iawn i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau nad yw cynhyrchwyr Cymru, gan gynnwys cynhyrchwyr cig oen Cymru, yn cael eu hamlygu i'r risgiau difrifol sy'n codi yn sgil cyfyngiadau ar fynediad i farchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd a'r tariffau a gaiff eu gorfodi.

#### Lefel briodol o gyllid

Rhaid i Lywodraeth y DU barhau i ddarparu cyllid ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig yng Nghymru ar lefel bresennol y cymorth a geir gan yr Undeb Ewropeaidd o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin tan o leiaf 2020/2021. Wedi hynny, y meincnod pwysicaf fydd cylch nesaf y Polisi Amaethyddol Cyffredin o 2021-2027.haid i Lywodraeth Cymru, yn ei thro, ymrwymo i wario'r cyllid hwnnw ar amaethyddiaeth a datblygu gwledig. Rhaid i wledydd y DU gytuno â'i gilydd ar ddull o benderfynu ar gyllid yn yr hirdymor.

#### Fframwaith rheoleiddiol sy'n cefnogi'r sector amaethyddol

Mae'r fframwaith rheoleiddiol presennol yn cynnal safonau cynhyrchu sy'n caniatáu mynediad i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd a thu hwnt iddi. Dylid ystyried barn cynhyrchwyr bwyd wrth ddiwygio rheoliadau. Dylai unrhyw reoliadau yn y dyfodol gefnogi cynhyrchu bwyd o ansawdd da a sicrhau'r mynediad ehangaf posibl i'r marchnadoedd.

#### Mynediad i lafur

Mae pryder dealladwy yng Nghymru y gall lleihad yn nifer y gweithwyr mudol gael effaith andwyol ar y sectorau amaethyddol a phrosesu bwyd. Rhaid i Lywodraeth y DU ystyried anghenion llafur Cymru wrth benderfynu ar bolisi mewnfudo ar gyfer y dyfodol.

Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle i ystyried ei gweithgaredd cynllunio'r gweithlu ar gyfer y sectorau amaethyddol a phrosesu bwyd.

#### Trefniadau pontio

Mae angen trefniadau pontio cynhwysfawr er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac i roi cymaint o sicrwydd â phosibl i'r sector yng Nghymru. Dylai unrhyw drefniant cyllido ar gyfer y dyfodol sy'n cwmpasu'r cyfnod interim hwn gael ei gytuno gan yr holl weinyddiaethau datganoledig.


Credwn y bydd newidiadau i drefniadau cyllido sy'n sylweddol wahanol i'r model cyllido presennol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn galw am gyfnod pontio sy'n cyfateb i gyfnod y cylch Polisi Amaethyddol Cyffredin cyfredol yn ogystal â'r cylch nesaf.

## Rhan dau – Cynigion ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru

**7.** Yn ail ran yr adroddiad hwn mae'r Pwyllgor yn ymchwilio i botensial model taliadau a chymorth ar gyfer rheoli tir sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r adroddiad yn galw am sicrhau canlyniadau yn y meysydd a ganlyn:

- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys atal llifogydd a gwella ansawdd dŵr;
- Cefnogi sector cynhyrchu bwyd gydnerth sy'n fwy hunanddibynnol gan gynhyrchu bwyd o'r ansawdd uchaf;
- Cynnal coedwigoedd a choetiroedd;
- Diogelu a gwella bioamrywiaeth;
- Rheoli'r dirwedd er budd twristiaeth, hamdden a chymunedau lleol;
- Meithrin y Gymraeg a chymunedau gwledig bywiog.


MASSEY FERGUSON



# Rhan un
## Rheoli Tir a Brexit: yr heriau uniongyrchol

Mae rhan gyntaf yr adroddiad hwn yn ymdrin â’r heriau uniongyrchol sy’n wynebu ein sector amaethyddol o ganlyniad i’r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.


– Mynediad i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd
– Lefel briodol o gyllid
– Fframwaith rheoleiddiol sy’n cefnogi’r sector amaethyddol
– Mynediad i lafur
– Trefniadau pontio

# 01. Masnach amaethyddol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd

Mae nifer o ffactorau'n gysylltiedig ag economi wledig lwyddiannus. Mae ein hadroddiad yn dechrau drwy amlinellu pwysigrwydd y sector amaethyddol i Gymru. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am bwysigrwydd parhau i sicrhau mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer cynhyrchwyr Cymru a'r goblygiadau posibl i allforwyr yn sgil masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd.

**8.** Allforiodd Cymru werth £12.3 biliwn o nwyddau y tu allan i'r DU yn 2015, ac aeth 67% o'r rheini i'r Undeb Ewropeaidd. Er mai dim ond 2% o gyfanswm allforion Cymru yw bwyd a da byw, mae'r rhain yn fwy tebygol o fynd i wledydd yr Undeb Ewropeaidd nag i wledydd eraill.

**9.** Yn 2016 allforiodd Cymru 92.7% o'i chig i'r Undeb Ewropeaidd, heb gynnwys y DU.[1]





Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi[2]

**10.** Mae ystadegau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn dangos mai cig a chynhyrchion cig oedd yr allforion mwyaf gwerthfawr (£73 miliwn) ac yna rawnfwyd a pharatoadau grawnfwyd (£47 miliwn) a chynhyrchion llaeth ac wyau adar (46 miliwn).[3] Fodd bynnag, mae dadansoddiad a wnaeth Hybu Cig Cymru, a ystyriodd faterion strwythurol yn y sector cig coch, yn awgrymu bod y ffigur ar gyfer allforion cig coch yn uwch o lawer: £225m yn 2014.[4]

---


[1] Ystadegau Masnach Rhanbarthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
[2] Data ar gyfer y flwyddyn 2016. Caiff mansach ei fynegi yn nhermau gwerth ariannol. Dyrennir masnach i ranbarthau o fewn y DU yn unol â'r fethodoleg Ystadegau Masnach Rhanbarthol gan ddefnyddio'r system 'Masnach Arbennig'. Caiff masnach busnes ei ddyrannu i ranbarth ar sail ei gyfran o gyflogeion yn y rhanbarth hwnnw. Nid yw cyfran yr 'Undeb Ewropeaidd' o fasnach Cymru yn cynnwys rhanbarthau eraill y DU, gan maicofnod o fasnach y DU gyda gwledydd y tu allan i'r DU yw sydd yn ystadegau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
[3] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Exports/valueofwelshexports-by-quarter-product
[4] Rhai o'r ystyriaethau strwythurol hyn yw bod rhai lladd-dai yng Nghymru wedi'u cofrestru ar gyfer TAW mewn mannau eraill yn y DU, neu bod da byw o Gymru yn cael eu difa mewn lladd-dai yn Lloegr, ac felly nad ydynt yn cael eu categoreiddio'n allforion o Gymru.

**11.** Dengys ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai'r gwerth i economi Cymru - Gwerth Ychwanegol Gros Cymru - yn sgil amaethyddiaeth oedd £385 miliwn. Roedd hyn yn 0.69% o gyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros Cymru, sy'n is na'r cyfrannau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban ond yn uwch na'r gyfran yn Lloegr a'r DU drwyddi draw. Ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, y Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer amaethyddiaeth yw £8.5 biliwn, sef 0.51% o gyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros y DU.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol[5]

**12.** Mae'r sector amaethyddol yn fwy arwyddocaol i Gymru o ran cyflogaeth o gymharu â rhannau eraill o'r DU.



Ffynhonnell: Defra[6]

[5] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[6] Agriculture in the United Kingdom 2015, Defra

**13.** Cyhoeddwyd adroddiad ar ran Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) sy'n dangos bod y sector amaeth yng Nghymru yn gwario £868 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau. Yn ogystal â gwariant uniongyrchol, mae'r cysylltiadau clos rhwng ffermio, yr amgylchedd a thwristiaeth hefyd yn hybu economi Cymru. Mae dros 80% o gefn gwlad Cymru yn cael ei reoli gan ffermwyr, a'r tirweddau eiconig hyn sy'n denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd ac yn ysgogi diwydiant twristiaeth sy'n werth £2.5 biliwn i Gymru. Mae adroddiad Development Economics sy'n dwyn y teitl 'Contributions of UK Agriculture'[7] yn dweud bod ffermio'n rhoi £7.40 yn ôl i'r economi am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi i gynorthwyo ffermydd yn y DU.

## Mynediad i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaid

**14.** Mecanwaith i hwyluso masnachu nwyddau rhwng ei haelod-wladwriaethau yw Marchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd ac mae wedi'i seilio ar fframwaith rheoleiddiol sy'n gosod safonau cyffredin cydnabyddedig. Mae'r fframwaith rheoleiddiol cyffredin hwn yn sicrhau nad oes modd i wledydd gael mantais gystadleuol drwy gynhyrchu bwyd i safonau is. Gorfodir tariffau cyffredin ar fewnforion o wladwriaethau nad ydynt yn aelodau.

### Barn rhanddeiliaid

**15.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid, gan gynnwys Hybu Cig Cymru (HCC), NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru bwysigrwydd marchnadoedd allforio, yn enwedig y Farchnad Sengl, i gynnyrch amaethyddol Cymru.

**16.** Dywedodd Dai Davies, Cadeirydd Hybu Cig Cymru:

> "In 2014, £225m[8] worth of Welsh red meat exports went to our mature markets in the EU. That's nine in every ten export sales.
>
> With exports accounting for around 35 per cent of all Welsh Lamb production, it means that nearly a third of the Welsh flock is sold to the EU nations."[9]

**17.** Pwysleisiodd Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru fod yn rhaid i gael mynediad di-dariff i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Hybu Cig Cymru hefyd:

> "The ability for Wales and the UK to continue to trade effectively with countries both within and outside of the EU is crucial to the viability and sustainability of the rural economy and to safeguard the future economy and well-being of Wales."

**18.** Bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth adael Undeb Tollau'r Undeb Ewropeaidd a'r Farchnad Sengl, y tu hwnt i gostau unrhyw dariffau, sy'n gysylltiedig â masnachu mewn marchnadoedd amaethyddol. Er enghraifft, cost weinyddol cydymffurfio â rheolau ynglŷn â tharddiad a

[7] Contributions of UK Agriculture, Development Economics
[8] Mae'r ffigur gan HCC yn uwch na'r ffigur ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru oherwydd bod y diffiniad o'r categori fymryn yn ehangach ('cig a pharatoadau cig' o'i gymharu â 'chig coch'). Hefyd, mae rhai o'r prif ladd-dai yng Nghymru wedi'u cofrestru ar gyfer TAW mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n golygu nad yw da byw o Gymru sy'n cael eu lladd yn Lloegr yn cael eu cynnwys yn ffigur allforio Cymru.
[9] http://hccmpw.org.uk/news_and_events/news/story/huge_eurozone_export_reliance

gweithdrefnau ar gyfer asesu cydymffurfiaeth, ail-ffurfweddu cynhyrchion, labelu a phecynnu. Amcangyfrifir y bydd y costau ychwanegol hyn oddeutu 5% i 8% o werth y cynnyrch.[10]

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**19.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU: 'The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union'[11] yn dweud am Lywodraeth y DU:

> "… will not be seeking membership of the Single Market, but will pursue instead a new strategic partnership with the EU, including an ambitious and comprehensive Free Trade Agreement and a new customs agreement."[12]

**20.** Yn ei haraith i gynhadledd yr NFU ar 21 Chwefror 2017, dywedodd Andrea Leadsom AS, Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:

> "As the Prime Minister outlined last month, we want tariff-free and frictionless cross-border trade with Europe.
>
> So with zero tariffs and zero non-tariff barriers as our starting point, we are striving for the best possible access for our farmers and food exporters."

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**21.** Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Diogelu Dyfodol Cymru'[13] ('y Papur Gwyn'), sef cyhoeddiad ar y cyd â Phlaid Cymru, pwysleisir bod "mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf - gan gynnwys ein prif gynhyrchion amaethyddol a bwyd - yn hanfodol"[14]. Mae'r Papur Gwyn yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau mai dyma fydd y brif flaenoriaeth yn ei thrafodaethau â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r papur hefyd yn dweud y byddai gosod tariffau a rhwystrau o fath arall "yn gwneud dim byd ond niwed i fusnesau yng Nghymru".[15]

**22.** Awgryma'r Papur Gwyn y gallai'r DU gadw mynediad at y Farchnad Sengl yn sgil bod yn aelod o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA), ac yn sgil hyn, barhau i fod yn rhan o Ardal Economaidd Ewrop. Mae'r Papur Gwyn yn dweud hefyd y gellid cadw mynediad at y Farchnad Sengl drwy drefniant wedi'i negodi sy'n unigryw ar gyfer y DU.[16]

## Masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd a Masnach Ryngwladol

**23.** Mae'r holl fasnach ryngwladol rhwng aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn cael ei llywodraethu gan eu hatodlenni - sy'n cynnwys cwotâu a thariffau manwl. Mae pob un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn aelodau unigol o Sefydliad Masnach y Byd ond yr Undeb Ewropeaidd sy'n eu cynrychioli yn y sefydliad hwnnw.

**24.** Os nad oes modd cytuno ar gytundeb masnach rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd, bydd gofyn i'r DU fasnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau tariff posibl ar gyfer nwyddau o Gymru.

---

[10] Yr athro Alan Matthews, Agricultural Dimension Professor Emeritus of European Agricultural Policy, University of Dublin.
[11] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Papur Gwyn Llywodraeth y DU
[12] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Pennod 8
[13] Brexit: Diogelu Dyfodol Cymru, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2017
[14] Diogelu Dyfodol Cymru, Llywodraeth Cymru, Pennod 1
[15] Diogelu Dyfodol Cymru, Llywodraeth Cymru, Pennod 4
[16] Diogelu Dyfodol Cymru, Llywodraeth Cymru, Pennod 4

| **Cynnyrch** | **Cyfradd y tariff** | **% y tariff effeithiol (prisiau 2015)** |
|---|---|---|
| Carcasau gwartheg | 12.8% + €176.8/100kg | 84 |
| Cig eidion, heb esgyrn | 12.8% + €303.4/100kg | 65 |
| Cig eidion wedi'i rewi, heb esgyrn | 12.8% + €304.1/100kg | 87 |
| Carcasau defaid | 12.8% + €171.3/100kg | 46 |
| Cig dafad, gydag esgyrn | 12.8% + €222.7/100kg | 51 |
| Cig dafad, heb esgyrn | 12.8% + €222.7/100kg | 61 |
| Carcasau moch | €53.6/100kg | 50 |
| Porc, heb esgyrn | €86.9/100kg | 43 |

Mae pob category yn cyfeirio tuag at cig ffres heblaw cig eidion wedi'i rewi
Ffynhonnell: Hybu Cig Cymru.[17]

**25.** Mae sawl opsiwn ar gyfer masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd yn y dyfodol. Nid oes yr un ohonynt yn syml ac mae rhai yn codi pryderon sylweddol i randdeiliaid. Un opsiwn fyddai i'r DU ddechrau gydag atodlen wag. Byddai hyn yn golygu bod y DU yn yr un sefyllfa ag unrhyw aelod newydd arall sy'n ceisio cael mynediad i Sefydliad Masnach y Byd. O ganlyniad, byddai angen i'r DU ailnegodi ei chonsesiynau masnach â phob aelod arall o'r Sefydliad.

**26.** Senario mwy tebygol, ond yr un mor gymhleth, yw y bydd y DU yn mabwysiadu cyfraddau tariff yr Undeb Ewropeaidd ac yn cytuno i gymryd cyfran o ddyraniad cwotâu yr Undeb Ewropeaidd ac ymrwymiadau eraill. Fodd bynnag, mae'r Institute for Government wedi dadlau na all y DU 'gopïo a gludo' termau ei haelodaeth bresennol a'u trosglwyddo. Os na fydd y cytundeb ar yr amserlenni wedi'u cytuno ar y diwrnod y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, awgrymir y bydd Sefydliad Masnach y Byd yn debygol o barhau i ddefnyddio'r tariffau Undeb Ewropeaidd presennol a chytundebau masnach eraill ar gyfer allforion o'r DU a'i bod yn debygol y byddai'r DU yn defnyddio trefniadau presennol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mewnforion. Aiff ymlaen i ddweud y byddai hyn fwy na thebyg yn gweithio ar gyfer y rhan fwyaf o'r fasnach, ond y byddai cwotâu ar gyfer cynhyrchion amaethyddol neu faterion yn ymwneud â chymorthdaliadau amaethyddol yn debygol o fod yn fwy cymhleth.[18]


---

[17] Enghreifftiau o dariffau y gallai allforwyr o'r DU eu hwynebu o dan senario Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r tariff canran effeithiol yn seiliedig ar brisiau 2015. Caiff cyfraddau'r tariff eu pennu mewn nifer o wahanol ffyrdd. Yr un mwyaf cyffredin yw tariff 'ad valorem', lle mae'r swm a delir yn ganran pris yr eitem a gaiff ei mewnforio. Dyma'r math o draiff a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin gan yr Undeb Ewropeaidd. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchwyr cig coch mae'n cynnwys swm ariannol sefydlog fesul uned (yn seiliedig ar bwysau). Mae'r symiau ariannol sefydlog yn amrywio rhwng cynhyrchion cig.
[18] **Brexit Explained: 10 things to know about the WTO, Institute for Government**

**27.** O ran amaethyddiaeth, byddai angen cytuno ynghylch a allai'r DU barhau i gadw'r opsiwn o ddarparu rhywfaint o gefnogaeth i'r diwydiant amaethyddol neu beidio; a rhannu Cwotâu Cyfraddau'r Tariffau (TRQs).

**28.** TRQs yw'r cwota o nwyddau y gellir eu mewnforio i'r Undeb Ewropeaidd. Byddai angen datrys sut y byddai'r TRQs yn cael eu rhannu rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd ac a fyddai'r gwledydd hynny sy'n eu dal ar hyn o bryd yn cytuno i wneud hyn neu beidio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Gymru oherwydd bod gan Seland Newydd ar hyn o bryd TRQ blynyddol o 228,254 tunnell o gig oen, y caniateir iddo ddod i mewn i farchnad yr Undeb Ewropeaidd yn ddi-dariff. Mae cyfradd tariff ad valorem[19] o 12.8% fesul 100kg/net yn berthnasol i gynhyrchion a gaiff eu mewnforio y tu allan i'r cwota. Yn ôl yr amcangyfrifon yn y tabl uchod, byddai cyfradd y tariff effeithiol yn debygol o fod llawer yn uwch, gan y byddai'n cynnwys tariff pwysau sefydlog.

**29.** Nid yw Seland Newydd wedi defnyddio ei gwota llawn ers 2011, gyda dim ond 76% yn cael ei ddefnyddio yn 2015. Mae tua hanner y cig oen o Seland Newydd sy'n dod i'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn dod i'r DU.[20]




Ffynhonnell: Hybu Cig Cymru[21]

### Barn rhanddeiliaid

**30.** Dywedodd Hybu Cig Cymru (HCC) wrth y Pwyllgor, ar sail gwybodaeth o 2015, y gallai senario lle y byddai'r DU yn masnachu â'r Undeb Ewropeaidd o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd olygu tariffau o 84% ar gelanedd gwartheg, 46% ar gelanedd ŵyn a 61% ar ddarnau o gig oen. Dywedodd HCC:

> "… I can't over-emphasise the importance of the European market to us as far as the red meat sector is concerned, especially Welsh lamb. As the majority of you will know, one third of the Welsh lamb production from Wales, which is about 1.3 million lambs, actually ends up being consumed in Europe, tariff-free of any restrictions. Of course, it's an ideal market for us because it's fairly close to where we produce the product and also it fits in with the fact that we've only got a 21-day shelf life for Welsh lamb at the moment. Of course, having the markets on our doorstep enables us to tackle this … Probably as far as a UK

[19] Gweler nodyn 17
[20] Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, Hydref 2016
[21] Hybu Cig Cymru: Lle y caiff cig oen Cymru ei fwyta. Ar gyfer cig oen Cymru a gaiff ei allforio i'r Undeb Ewropeaidd, Ffrainc, yr Eidal, yr Almaen, Sbaen, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a Sgandinafia sy'n bwyta'r swm mwyaf. Mae allforion y tu allan Undeb Ewropeaidd yn mynd i'r Swistir, Canada, yr Emriaethau Arabaidd Unedig a Hong Kong yn bennaf.

> basis is concerned about 6 million lambs from the UK end up in Europe and about 6 million lambs from New Zealand and Australia actually come into the UK. So, if I was the Prime Minister, looking after the interests of the red meat sector, I would say, if we lose the Single Market, we get rid of the cheap imports from Australia and New Zealand in order for us to sell the lambs that we actually sell to Europe now, because there would be a demand for them at home."[22]

**31.** Dywedodd yr Athro Midmore o Ysgol Fusnes Aberystwyth wrth y Pwyllgor:

> "it would be a disaster for upland Wales if we had to sell our lamb to Europe under World Trade Organization rules because, in effect, it more than reverses the dividend that Welsh farmers have had in terms of exchange rate movement after the referendum result. On top of that, until the UK actually re-accedes or resumes full membership of the WTO, we're in a sort of limbo position. We are not actually a part of it or not, so we don't have to be treated with most-favoured-nation status."[23]

**32.** O ran cytundebau masnach â gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, awgrymodd yr Athro Fiona Smith wrth Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad Cenedlaethol y byddai angen rhwng tair a phum mlynedd fan leiaf cyn y gellid cytuno ar gytundebau masnach ar ôl Brexit â gwledydd eraill:

> "Countries like Australia and the United States have indicated that they want to negotiate trade deals with the UK government post-Brexti, but favourable agri-trade deals with these countries is unrealistic for at least the next three to five years."[24]

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**33.** Trafodwyd y posibilrwydd o fasnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU a oedd yn dweud bod dim cytundeb o gwbl i'r DU yn well na chytundeb gwael.[25]

**34.** Yn fwy diweddar, ar 7 Chwefror 2017, soniodd David Jones AS, Gweinidog Gwladol yr Adran ar gyfer Gadael yr Undeb Ewropeaidd, am y posibilrwydd y gallai'r DU fasnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd. Dywedodd:

> "… if there were no agreement at all, which I think is an extremely unlikely scenario, ultimately we would be falling back on World Trade Organisation arrangements. That is nothing new. It has been made very clear previously, including by my right hon. Friend the Prime Minister."[26]

**35.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU yn dweud:

---

[22] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 21 Ionawr 2017, paragraff 69
[23] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 28 Medi 2016, paragraff 66
[24] Yr Athro Fiona Smith, Prifysgol Warwick
[25] **The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union**, Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Pennod 12
[26] Hansard, **(Vol.261 c.272)**

> "9.17 As part of leaving the EU the UK will need to establish our own schedules covering trade in goods and services at the WTO, providing clarity for UK business about their access to overseas markets around the world and also providing a clear basis for negotiating new trade agreements, not just with the EU, but with old friends and new allies from outside Europe too.
>
> 9.18 … Our aim is to establish our schedules in a way that replicates as far as possible our current position as an EU Member State, thus creating a mutually beneficial, simple and inclusive outcome, so that the interests of the UK and other WTO members are protected."[27]

**36.** Roedd Papur Gwyn Llywodraeth y DU hefyd yn dweud bod trafodaethau cychwynnol am fasnachu wedi dechrau eisoes gyda nifer o wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd:

> "[The Department for International Trade] will lead the UK's ambitions for deepening trade and investment relations with the wider world. Many countries including China, Brazil, and the Gulf States have already expressed their interest in enhancing their trading relationships with us. We have started discussions on future trade ties with countries like Australia, New Zealand and India."[28]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**37.** Barn Llywodraeth Cymru yw y byddai rheolau masnachu Sefydliad Masnach y Byd yn cael effaith ddifrifol ar fusnesau Cymru yn y sector amaethyddol. Mae ei Phapur Gwyn yn dweud:

> "Gallai cymryd rhan yn y Farchnad Sengl yn cael ei ddisodli gan reolau Sefydliad Masnach y Byd, mae'r prif arbenigwyr economaidd yn cytuno y gallai economi'r DU fod hyd at 8 - 10% yn llai na'r hyn y byddai fel arall, ac y byddai'n dinistrio masnach mewn rhai sectorau penodol, yn arbennig bwyd - sector cynhyrchu mwyaf y DU - a'r sector modurol. Byddai hyn yn cael effaith ganlyniadol ar safonau byw a thlodi yng Nghymru ar unwaith ac yn y tymor hir."[29]

**38.** Wrth ymateb i gwestiwn am fasnachu cynhyrchion amaethyddol yn rhyngwladol, dywedodd y Prif Weinidog yn y Cynulliad ar 17 Ionawr 2017:

> "I am completely against tariffs on Welsh produce as regards trading with the European market? I am also against any free trade agreement that will weaken the agriculture of Wales, whether it be with New Zealand [on lamb], or with Brazil on beef. We have to be extremely careful as regards which countries agreements are made with … We are completely against any route that would mean that the farmers of Wales would lose money and their markets."

---

[27] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Pennod 9
[28] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Pennod 9
[29] Diogelu Dyfodol Cymru, Llywodraeth Cymru, Pennod 4

**39.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wrth y Pwyllgor hwn fod Llywodraeth Cymru yn modelu gwahanol senarios masnachu posibl ar gyfer Cymru er mwyn asesu eu heffaith ac ychwanegodd:

> "If we have the World Trade Organization rules, I think the impact on agriculture, on fisheries and on food is going to be very significant. Obviously, tariffs are a big concern to the sector."[30]

**40.** Ychwanegodd swyddog o Lywodraeth Cymru a ddaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet i'r cyfarfod:

> "[…] what WTO per se would actually mean in terms of actual tariffs that would apply to those products-you're looking at an ad valorem tariff rate of 12.8 per cent on those products, but beyond that there's also what's called the non-ad valorem addition. So, you also pay per weight of product that you're exporting-you'd be exporting under WTO rules, too, which means that in practice, under some scenarios, depending on price, tariff rates have exceeded 40, 50 per cent in terms of the actual cost of exporting that product.
>
> Now, clearly, in the very tight margins that our Welsh beef and lamb sector are operating in, that would have a significant impact on our ability to export to the EU."[31]

## Ein barn ni

Ni all y Pwyllgor hwn orbwysleisio pwysigrwydd y sector amaethyddol a'r economi wledig i Gymru. Mae'r gwerth hwnnw'n ymestyn y tu hwnt i economeg a gwerth y nwyddau a gynhyrchir - mae'n cefnogi ein diwylliant a'n hiaith, a'n tirwedd a'n cymunedau.

O gofio bod dros 90% o allforion bwyd a diod Cymru y tu allan i'r DU yn cael eu hallforio i'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, mae'n hanfodol bod y sector yn gallu parhau i gael mynediad llawn i'r farchnad hon. Rydym yn cefnogi'r alwad gan Lywodraeth Cymru am fynediad di-dariff a di-gwota i'r Farchnad Sengl. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o awgrymiadau buddiol am sut y gellir cyflawni hyn, gan gynnwys drwy fod yn aelod o EFTA neu Undeb Tollau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae anghenion y sectorau amaethyddol yng ngwledydd y DU a'u pwysigrwydd i economïau'r gwledydd hynny yn amrywiol. Bydd gan bob un o wledydd y DU eu blaenoriaethau eu hunain i'w negodi â'r Undeb Ewropeaidd. I Gymru, un enghraifft o flaenoriaeth allweddol yw cig oen. Os na chaiff diwydiant cig oen Cymru ei gynrychioli'n briodol yn y trafodaethau hynny, gall fod yn drychinebus.

Mae'n hanfodol, felly, yn ystod y trafodaethau bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno safbwynt negodi sydd wedi'i gytuno â phob un o wledydd y DU.

Mae peryglon methu â sicrhau cytundeb masnach â'r Undeb Ewropeaidd yn ddifrifol - bydd masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd yn hynod niweidiol i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau nad yw cynhyrchwyr Cymru, yn enwedig cynhyrchwyr cig oen Cymru, yn

[30] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, paragraffau 171-172
[31] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, paragraffau 173-175

wyneb risgiau difrifol yn deillio o gyfyngu ar fynediad i farchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd a gorfodi tariffau.

O ran masnach ryngwladol, mae angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru yn gallu allforio ar delerau rhesymol ac na fydd cynhyrchion is eu safon o farchnadoedd eraill yn llifo i farchnad y DU.

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch yr effaith bosibl yn deillio o drosi holl gwota Seland Newydd ar gyfer mewnforion cig oen i'r DU ar ôl iddi adael yr Undeb Ewropeaidd. Gallai hyn ddinistrio ein diwydiant cynhyrchu cig oen. Mae sicrhau bod buddiannau cynhyrchwyr Cymru yn cael eu cynrychioli yn y trafodaethau ar y mater hwn yn hanfodol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru a Hybu Cig Cymru sicrhau eu bod yn barod i ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil mynediad i farchnadoedd newydd a gwahanol. Clywsom dystiolaeth fod gwaith eisoes wedi dechrau ar fanteisio ar farchnadoedd rhyngwladol newydd. Rydym yn galw ar Hybu Cig Cymru a Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer ehangu'r sector cig coch yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn lliniaru effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd ar lefelau cyfredol allforion o Gymru.

Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru a Hybu Cig Cymru i ganolbwyntio o'r newydd ar farchnata cig oen Cymru, gan gynnwys defaid ysgafnach sy'n cael eu magu ar laswelltir naturiol o'r ucheldiroedd, er mwyn cynyddu'r galw yn y farchnad gartref a thramor.

## Argymhellion:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth y DU sicrhau mynediad di-dariff a di-gwota i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gael llais cydradd wrth y bwrdd trafod yn ystod y trafodaethau ar fynediad i'r Farchnad Sengl. Yn ystod y trafodaethau, dim ond safbwynt y mae cytundeb yn ei gylch yn y DU y caiff Llywodraeth y DU ei gyflwyno, nid safbwynt sy'n cael ei arwain gan y DU.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth y DU ddiogelu buddiannau cynhyrchwr cig oen Cymru a chynnig eglurder cyn gynted â phosibl am ei strategaeth negodi ynghylch dyfodol cwota cig oen Seland Newydd ar gyfer y DU.

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag Adrannau perthnasol Llywodraeth y DU i gynyddu'n sylweddol ei hymdrechion masnach yn rhyngwladol er mwyn datblygu marchnadoedd allforio newydd ar gyfer cig oen Cymru a chryfhau'r marchnadoedd presennol.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Hybu Cig Cymru gynyddu ei ymdrechion i farchnata cig oen Cymru mewn marchnadoedd cartref a rhyngwladol er mwyn helpu cynhyrchwyr i ymateb i'r heriau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dylid paratoi strategaeth farchnata newydd i ymdrin â'r materion hyn o fewn y 12 mis nesaf. Rhaid i'r strategaeth ymdrin yn briodol ag anghenion ffermwyr yr ucheldir.

# 02. Datganoli a dyfodol pwerau'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r bennod hon yn ymchwilio i sut y bydd penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn cael eu gwneud ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn ymdrin â galwadau am fframwaith rheoleiddio cyffredinol ar gyfer y DU ac i Gymru gael llais cydradd yn y broses o'i ddatblygu.

**41.** Mae pwerau'r DU wedi'u dosbarthu ar batrwm anghymesur lle mae'r lefelau datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn amrywio. Mae Senedd y DU yn deddfu ar gyfer y DU gyfan ar faterion a gedwir yn ôl ac ar gyfer Lloegr, ond dim ond ar y meysydd hynny lle mae pwerau wedi'u datganoli.

**42.** Mae'r cyfrifoldeb deddfwriaethol am amaethyddiaeth wedi'i ddatganoli i Gymru er 1999. Yn Neddf Cymru 2017,[32] cyflwynwyd model datganoli ar batrwm 'cadw pwerau' sy'n nodi'r meysydd pwnc sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan adael popeth arall wedi'i ddatganoli i Gymru. Daw'r model hwn i rym ym mis Ebrill 2018 a, than hynny, bydd y model 'rhoi pwerau' sydd yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol.

**43.** Ers 1999, mae polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amaethyddiaeth wedi gweithredu yn unol â'r fframweithiau rheoleiddiol cyffredin a bennir gan yr Undeb Ewropeaidd.

**44.** Mae amaethyddiaeth yn faes sydd wedi'i ddatganoli'n llwyr o ran y cymwyseddau nad ydynt yn gorwedd gyda'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am faterion cysylltiedig eraill megis masnach. Llywodraeth y DU fydd yn deddfu mewn perthynas â masnach, gan gynnwys y termau masnach rhwng y DU, ac yn sgil hynny, Cymru, a'r Undeb Ewropeaidd a gwledydd eraill ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn anochel, bydd deddfwriaeth o'r fath ar faterion a gedwir yn ôl yn effeithio ar amaethyddiaeth, sy'n faes sydd wedi'i ddatganoli.

**45.** Mae Deddf Cymru 2017 yn caniatáu i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru, ond, cyn gwneud hynny, rhaid i'r Cynulliad gydsynio, drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Nid yw'r confensiwn hwn, a adwaenir fel confensiwn Sewell, yn gyfreithiol gyfrwymol.

## Pwerau sydd wedi'u datganoli

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**46.** Mewn ateb i gwestiwn yn Senedd y DU ar 24 Ionawr 2017, dywedodd David Davies, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd:

> "… no powers existing in the devolved Administrations will come back [to Westminster], but there will be powers coming from the European Union and we will have to decide where they most properly land, whether that is Westminster, Holyrood or wherever. The real issue there is the practical interests of all the nations of the United Kingdom – for example, preserving the single market of the United Kingdom and the United Kingdom's ability to do international deals."[33]

[32] Deddf Cymru 2017
[33] Hansard, 24 Ionawr 2017

**47.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar 2 Chwefror 2017, yn dweud bod y setliadau datganoli presennol wedi'u creu yng nghyd-destun aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac mai dim ond cyhyd â'u bod yn cydweddu â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd y bydd gan y deddfwrfeydd datganoledig gymhwysedd deddfwriaethol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae'n mynd rhagddo i ddweud:

> "We have already committed that no decisions currently taken by the devolved administrations will be removed from them and we will use the opportunity of bringing decision making back to the UK to ensure that more decisions are devolved."[34]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**48.** Mae'r Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn egluro ei barn ar y berthynas rhwng pwerau datganoledig a'r Undeb Ewropeaidd:

> "Ar hyn o bryd, mae amrywiol bwerau sydd eisoes wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu o fewn fframwaith rheoleiddiol yr UE. Mae hyn yn cynnwys amaethyddiaeth, pysgodfeydd, yr amgylchedd a datblygu economaidd. Wrth i'r DU adael yr UE, pan fydd fframweithiau rheoleiddiol a gweinyddol yr UE yn peidio â bod yn berthnasol bellach, bydd y pwerau hyn yn parhau i fod wedi'u datganoli i Gymru."[35]

## Pwerau'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol

**49.** Ers i'r DU ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn 1973[36], mae fframweithiau rheoleiddiol cyffredin yn ymwneud ag amaethyddiaeth wedi eu penderfynu ar lefel Ewropeaidd. Y fframwaith rheoleiddiol hwn sydd, er enghraifft, yn pennu safonau cyffredin ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid wrth gynhyrchu bwyd.

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**50.** Bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd y Bil Diddymu Mawr yn sicrhau bod y corff cyfan o ddeddfwriaeth amgylcheddol ac amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd yn dod yn rhan o gyfraith y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi disgrifio hyn fel 'dychwelyd' deddfwriaeth:

> "… even in areas where the devolved legislatures and administrations currently have some competence, such as agriculture, environment and some transport issues, most rules are set through common EU legal and regulatory frameworks, devised and agreed in Brussels. When the UK leaves the EU, these rules will be set here in the UK by democratically elected representatives.
>
> 3.5 As the powers to make these rules are repatriated to the UK from the EU, we have an opportunity to determine the level best placed to make new laws and

---

[34] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Papur Gwyn, Llywodraeth y DU, Pennod 3
[35] Diogelu Dyfodol Cymru, Pennod 7
[36] Ymunodd y DU â'r hyn a alwyd bryd hynny yn Gymuned Economaidd Ewropeaidd

> policies on these issues, ensuring power sits closer to the people of the UK than ever before."[37]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**51.** Yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, ategodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig safbwynt Llywodraeth Cymru, sef y bydd pwerau sy'n dychwelyd o'r Undeb Ewropeaidd, mewn meysydd datganoledig, yn dod i Gymru, yn hytrach na'u bod yn dod i'r DU. Dywedodd fod geiriau Prif Weinidog y DU yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar 30 Ionawr wedi'i chalonogi, sef, na fyddai pwerau sydd wedi'u datganoli'n cael eu bachu yn ôl.[38]

## Y dull o reoleiddio yn y dyfodol

**52.** O ran y dull o reoleiddio ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, ymchwiliwyd i ddau faes allweddol yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor. Yn gyntaf, a ddylid disodli fframwaith rheoleiddiol yr Undeb Ewropeaidd gyda fframwaith newydd ar gyfer y DU. Yn ail, y dull rheoleiddio o fewn fframwaith o'r fath.

### Barn rhanddeiliaid

**53.** Yn gyffredinol roedd rhanddeiliaid o blaid cyflwyno fframweithiau rheoleiddiol cyffredin ar lefel y DU, lle roedd hynny'n briodol ac yn ddymunol. Byddai hyn, er enghraifft, yn sicrhau y byddai cynhyrchwyr bwyd ledled y DU yn parhau i weithio yn unol â safonau lles anifeiliaid cyffredin.

**54.** Roedd barn gref y dylai fod gan Lywodraeth Cymru y rhyddid o fewn fframweithiau rheoleiddiol cyffredin o'r fath i ddatblygu polisïau sy'n briodol i Gymru. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru wrth y Pwyllgor:

> "… a UK agricultural framework should be put in place which prevents unfair competition between devolved regions and secures and protects adequate funding for agriculture, while also respecting devolved powers over agriculture and the need for flexibility within that framework which allows devolved governments to make decisions which are appropriate for their regions."[39]

**55.** Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y dylid ystyried llinell sylfaen reoleiddiol weddol debyg drwy'r DU gyfan, ond pwysleisiodd y byddai cyflwyno fframweithiau cyffredin yn cyfyngu ar roi pwerau datganoledig ar waith, gan ddweud:

> "For example, different approaches to retaining the basic payments scheme, could create significant cross-border effects within the UK."[40]

**56.** Dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn credu dylai'r holl wledydd sy'n rhan o'r DU gytuno ar fframweithiau a fyddai'n cwmpasu'r DU gyfan. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA):

> "It is essential that Westminster recognises the different needs and contributions of each part of the UK. Each country has its own distinct challenges and opportunities and must be allowed to respond to these within

---

[37] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Pennod 3
[38] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, paragraff 262
[39] Tystiolaeth ysgsrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru

> an overarching policy framework. Current arrangements where DEFRA is the voice of England and the voice of the UK cause difficulties. A formal platform needs to be established where the component parts of the UK - Scotland, Wales, Northern Ireland, and England have equal status in developing a holistic UK framework policy."[41]

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**57.** Mae cynrychiolwyr Llywodraeth y DU wedi dangos cefnogaeth tuag at yr egwyddor o fframweithiau sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Dywedodd David Jones AS, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran ar gyfer Gadael yr Undeb Ewropeaidd:

> "Lesley Griffiths, the environment Secretary, made some comments recently about the need, for example, in terms of agriculture, for there to be a UK-wide framework so that one part of the UK doesn't have an unfair advantage over another part of the UK. I think that she's probably right."[42]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**58.** Mae'r Papur Gwyn yn dweud y gall fod achosion lle bydd angen cysondeb ar draws marchnad fewnol y DU, gan olygu bod angen datblygu fframweithiau newydd ar gyfer y DU gyfan. Dylai trefniadau o'r fath gael eu seilio ar gyfres o egwyddorion sy'n berthnasol i'r trefniadau cyfansoddiadol newydd, gan gynnwys "cydsyniad rhydd y tair deddfwrfa a gweinyddiaeth ddatganoledig" yn cyfranogi ar delerau cyfartal gyda Llywodraeth y DU. Mae'n dweud hefyd y dylai fod systemau cymodi cadarn a gwirioneddol annibynnol i ddatrys unrhyw anghydfodau mewn perthynas â gweithredu'r fframweithiau y cytunwyd arnynt.[43]

**59.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod angen mecanwaith newydd ar gyfer deialog rhwng llywodraethau'r DU, ac eglurder ynghylch pa bryd y bydd Llywodraeth y DU yn siarad ar ran y DU a pha bryd y bydd yn siarad ar ran Lloegr. Dywedodd fod yn rhaid sicrhau cydraddoldeb yn y trafodaethau ar gyfer pob gwlad dan sylw oherwydd bod ganddynt flaenoriaethau gwahanol a'r effaith y gallai penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl, megis masnach, ei chael ar faterion sydd wedi'u datganoli, megis amaethyddiaeth.

**60.** Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru a ddaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet i gyfarfod y Pwyllgor, er bod mecanweithiau wedi'u sefydlu ar gyfer deialog rhwng y llywodraethau ar lefel gweinidogion, nad oedd trefn gyfatebol i gynnal deialog ar lefel swyddogion.

> "We've got overarching machinery that governs the constitutional arrangements, principally through the Joint Ministerial Committee, and that machinery is being strengthened in light of Brexit. … But, we've yet to see the development of official mechanisms, or mechanisms below ministerial level, to pull together all the Brexit thinking… Whitehall colleagues have clearly been doing a lot of analytical work over the summer and it's important that we can be part of that process and make sure that Welsh interests are properly reflected in that analysis."[44]

---

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwald (CLA)
[42] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 13 Chwefror 2017, para 95
[43] Diogelu Dyfodol Cymru, Pennod 7
[44] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Medi 2016, paragraff 20

## Y dull rheoleiddio yn y dyfodol

### Barn rhanddeiliaid

**61.** Awgrymodd Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd y gallai ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd gynnig cyfle i gyflwyno strwythur rheoleiddiol sy'n cefnogi'r sector i gynhyrchu cynhyrchion o'r radd flaenaf a chydymffurfio â safonau uchel ym maes yr amgylchedd, iechyd, lles anifeiliaid a llafur.[45]

**62.** Dywedodd RSPB Cymru y dylai safonau amgylcheddol a lles i gynhyrchwyr fod o leiaf gyn uched yn y dyfodol ag y maent ar hyn o bryd.[46]

**63.** Dywedodd NFU Cymru y byddai'n rhaid i unrhyw gynnydd yn y baich rheoleiddiol ar y sector fod yn gyfiawn ac yn angenrheidiol. Aeth ymlaen i ddweud:

> "… we certainly wouldn't want to see a bonfire of rules and regulations, especially if we want to maintain access to the Single Market in Europe. But, of course, we could be more pragmatic … in that we should be basing some of these regulations on risk rather than the heavy-handedness at present."[47]

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**64.** Yn ystod araith yng Nghynhadledd Ffermio Rhydychen ar 4 Ionawr, dywedodd Andrea Leadsom AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, mewn perthynas â'r dull rheoleiddiol, y byddai'n ystyried cael gwared ar y rheolau sy'n ein dal yn ôl, ac ychwanegodd:

> "By cutting the red tape that comes out of Brussels, we will free our farmers to grow more, sell more and export more great British food – whilst upholding our high standards for plant and animal health and welfare."[48]

**65.** Yn fwy diweddar, yng nghynhadledd yr NFU ar 21 Chwefror, dywedodd y byddai Llywodraeth y DU yn cadw'r addewid yn ei maniffesto yn 2015 sy'n dweud y bydd safonau uchel o ran lles anifeiliaid yn cael eu hymgorffori mewn cytundebau masnach rhyngwladol.[49]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**66.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn dweud 'na ddylai ymadael â'r UE gynnig esgus i lastwreiddio neu ddadwneud safonau sydd wedi gwella bywydau ein dinasyddion'.50 Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd cyrraedd safonau rheoleiddiol yr Undeb Ewropeaidd er mwyn cael mynediad i'r Farchnad Sengl ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU nad effeithir ar y setliad datganoli yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o eglurder ynglŷn â beth

[45] Tystiolaeth Ysgsrifenedig Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd
[46] Tystiolaeth Ysgrifenedig RSPB
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig NFU Cymru
[48] Defra, Araith gan yr Ysgrifennydd Gwladol yng Nghynhadledd Ffermio Rhydychen
[49] Defra, Araith gan yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynhadledd yr NFU
[50] Diogelu Dyfodol Cymru, Pennod 8

fydd hyn yn ei olygu'n ymarferol o gofio'r effaith a gaiff penderfyniadau ynglŷn â materion a gedwir yn ôl, megis masnach, ar faterion sydd wedi'u datganoli megis amaethyddiaeth.

Nid yw ystyr yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei alw'n "ddychwelyd" pwerau'n glir ac nid oes dealltwriaeth gytûn ohono. Defnyddir y term hwn ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU i ddisgrifio'r hyn a fydd yn digwydd mewn perthynas â fframwaith rheoleiddiol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd ar ôl i'r DU adael. Mae'r cwestiwn ynghylch a ddylid cael fframwaith rheoleiddiol newydd ar gyfer y DU ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd wedyn yn fater i'w drafod rhwng gwledydd y DU.

Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd yn rhaid creu perthnasoedd newydd rhwng y Llywodraethau ar lefel y DU. Rhaid i flaenoriaethau pob un o Lywodraethau'r DU gael eu cynrychioli wrth ddatblygu fframweithiau rheoleiddiol a pholisi ar gyfer y dyfodol. Rhaid cydlynu'r cydgyfrifoldebau ar draws y DU ar sail statws cydradd. Prin yw'r dystiolaeth o gydweithredu a chydlynu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hyd yma ac mae hyn yn destun pryder.

Bydd cyflwyno fframweithiau rheoleiddiol cyffredin ar gyfer y DU yn hollbwysig i'r berthynas newydd hon. Rhaid i bob un o'r gwledydd sy'n rhan o'r DU gytuno ar y fframweithiau hyn. Rhaid peidio â'u gorfodi o'r canol. Rydym yn llwyr gefnogi cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn 'Gyngor Gweinidogion y DU' ac am fecanwaith cymrodeddu i ddatrys anghydfodau.

At hynny, rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ar gyfer cydweithio ar lefel swyddogion i sicrhau bod Cymru yn cael ei chynnwys yn llawn yn ystod y gwaith parhaus ar effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Rhaid i unrhyw fframwaith rheoleiddiol cyffredinol yn y dyfodol allu ymdopi ag amrywiadau rhwng polisïau ledled y DU. Rhaid i Lywodraeth Cymru gael y rhyddid mwyaf posibl i ddatblygu polisi mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, yn ogystal â pharchu unrhyw fframwaith y cytunir arno ar gyfer y DU. Yn ogystal â gwarchod safonau presennol yn ymwneud â diogelu lles anifeiliaid a'r amgylchedd yng Nghymru, mae hefyd yn angenrheidiol ystyried deddfwriaeth bresennol Cymru megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r fframwaith rheoleiddiol presennol yn cynnal safonau cynhyrchu sy'n galluogi mynediad i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd a'r tu hwnt iddi. Dylid ystyried barn cynhyrchwyr bwyd wrth ddiwygio'r rheoliadau. Dylai unrhyw reoliadau yn y dyfodol gefnogi cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel a sicrhau'r mynediad ehangaf bosibl i farchnadoedd.

Bydd angen trafod unrhyw newid arfaethedig i'r dull rheoleiddio presennol a chytuno arno, a hynny ar fyrder. Rhaid i gynhyrchwyr bwyd gael sicrwydd er mwyn iddynt allu cynllunio.

## Argymhellion:

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am drafodaethau dwyochrog gyda Llywodraeth y DU ar fyrder i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa gyfreithiol a chyfansoddiadol mewn perthynas â phwerau a gedwir yn ôl ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth y DU ymrwymo i ddatblygu fframweithiau rheoleiddiol a pholisi yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig mewn

partneriaeth a sicrhau cydraddoldeb rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gryfhau'r mecanweithiau cydweithio, megis datblygu 'Cyngor Gweinidogion y DU', yn unol ag awgrym Llywodraeth Cymru. Dylid sefydlu mecanwaith cymrodeddu annibynnol er mwyn datrys anghydfodau.

# 03. Cyllid

Mae'r Bennod hon yn ystyried yr angen am sicrwydd ynghylch lefelau cyllido yn y dyfodol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'n galw am ymrwymiadau gan y ddwy lywodraeth y bydd y cyllid yn parhau ar ei lefel bresennol tan o leiaf 2020/21 ac, ar ôl hynny, y meincnod pwysicaf fydd cylch y Polisi Amaethyddol Cyffredin o 2021-2027. Ni ddylai cyllid o'r fath gael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla Barnett. Ni ddylai Cymru fod yn waeth ei byd yn sgil y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd

**67.** Prif ffynhonnell y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru gan yr Undeb Ewropeaidd yw drwy daliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Rhennir y cyllid ar gyfer PAC yn ddwy 'Golofn'. Mae cymorth Colofn 1 yn cynnwys cymorth incwm uniongyrchol i ffermwyr (Cynllun y Taliad Sylfaenol) a dulliau rheoli'r farchnad. Y Golofn Datblygu Gwledig yw **Colofn 2** ac mae'n darparu cymorth ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig Aelod Wladwriaethau a'r Rhanbarthau.

**68.** O ran cyllid i amaethyddiaeth yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2014-2020, disgwylir i Gymru gael cyfanswm o €1.95 biliwn ar gyfer taliadau uniongyrchol Colofn 1 oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd, sy'n cyfateb i gyfartaledd o €279m y flwyddyn. O ran Colofn 2, disgwylir i Gymru gael cyfanswm o €655.8m gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2014-2020, sy'n cyfateb i €93.5 y flwyddyn ar gyfartaledd.

**69.** Cyn y refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd, cafwyd datganiadau gan y rhai a oedd yn ymgyrchu o blaid gadael i dawelu meddyliau pleidleiswyr na fyddai'r DU yn waeth ei byd yn ariannol pe bai'n penderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd. Er enghraifft, yng Nghynhadledd yr NFU ar 25 Chwefror 2015, dywedodd George Eustice AS, sydd bellach yn Weinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, y byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn creu £18 biliwn y flwyddyn o "ddifidend Brexit". Gellid defnyddio'r arian hwn i barhau i dalu ffermwyr drwy gyfrwng cynllun gwell:

> "Could we find the money to spend £2bn on farming and the environment? Of course we could. Would we? Without a shadow of a doubt."[51]

### Barn rhanddeiliaid

**70.** Mynegodd yr holl ymatebwyr a gyfeiriodd at gyllid yn eu tystiolaeth ysgrifenedig bryder am y gostyngiad yn y cyllid a fyddai ar gael ar gyfer amaethyddiaeth ar ôl Brexit. Dadl Undeb Amaethwyr Cymru oedd y dylid cynnal y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth ar lefelau sydd o leiaf yn adlewyrchu'r rhai a fyddai ar waith pe bai'r DU heb bleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd yr RSPB a Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylai fod digon o gyllid ar gael i alluogi cyflawni amcanion amgylcheddol Cymru yn llawn.

**71.** Dywedodd NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, yr RSPB, Cyswllt Amgylchedd Cymru, CLA a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI) na ddylai cyllid yn y dyfodol fod yn ddibynnol ar Fformiwla Barnett. Amcangyfrifodd NFU Cymru y byddai defnyddio Fformiwla Barnett i ddyrannu'r cyllid yn arwain at 40% yn llai o arian i Gymru o'i gymharu â mecanwaith cyllido presennol y PAC. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr o blaid defnyddio fformiwla Barnett ar gyfer pennu'r cyllid yn y dyfodol.

[51] Cynhadledd yr NFU 2015, 24 – 25 Chwefror 2015.

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**72.** Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth yn parhau ar ei lefel bresennol tan 2020. Dywedodd Andrea Leadsom AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, wrth siarad yng nghynhadledd flynyddol y Blaid Geidwadol ar 3 Hydref 2016:

> "It's really important that we have been able to confirm the same level of agricultural support until 2020.
>
> And that we'll honour all environmental agreements signed before the Autumn Statement for their lifetime, even if they run beyond our departure from the EU."[52]

**73.** Ar 19 Ionawr 2017, dywedodd:

> "… we have undertaken, from our very first days in the job, to commit to the levels of current support for all Pillar one payments until 2020 to give that continuity to farmers and businesses. We have committed to our consultation on the future of the food and farming sector in our 25-year plan, and that will look closely at the level of support that is needed. I absolutely agree that we will need to look at what we do for the future to ensure that hill farmers remain viable and sustainable."[53]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**74.** Gan gyfeirio at gyllido'n fwy cyffredinol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn dweud:

> "Rhaid ail-addasu llinell sylfaen taliad y Grant Bloc i Gymru, adeg ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, i adlewyrchu'r arian a gollir mewn gwirionedd yng Nghymru yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a chan ystyried y cyllido y byddai Cymru wedi disgwyl ei gael yn rhesymol o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd fel arall."[54]

**75.** Ymhelaethodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y safbwynt hwn wrth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 23 Ionawr gan ychwanegu y dylid seilio'r ailaddasiad ar gydnabod angen cymharol, ac na ddylai ddod o dan Fformiwla Barnett. Dywedodd mai gwaith y Cynulliad fyddai goruchwylio dyrannu'r cronfeydd hynny.[55]

**76.** Nid yw llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 20 Rhagfyr yn dweud yn benodol y byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i neilltuo cyllid ar gyfer amaethyddiaeth ar ôl Brexit:

> "I would like to re-iterate my full support for the calls for the UK Government to commit to providing Wales with the same level of EU funding it currently receives. This is a key issue and the First Minister has sought assurances from

[52] A rural economy and environment that works for everyone, Andrea Leadsom
[53] Hansard, 19 Ionawr 2017, Cyfrol 619 (col.1049)
[54] Diogelu Dyfodol Cymru, Pennod 6
[55] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 23 Ionawr 2017, paragraff 38

> the UK Government that existing EU funding will be replaced in full, including that equivalent monies in programmes like CAP will be guaranteed to the end of the current programmes in 2023."[56]

**77.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor wedyn na allai ragweld adeg pan na fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr. Dywedodd pe bai'r un lefel o gyllid yn cael ei darparu gan Lywodraeth y DU ar gyfer amaethyddiaeth, yr amgylchedd a datblygu gwledig yng Nghymru ar ôl Brexit, mai ei bwriad fyddai parhau â'r lefelau cyllido cyfredol hyd at ddiwedd y tymor hwn yn y Cynulliad, sef 2021.[57] Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod na allai Llywodraeth bresennol Cymru wneud ymrwymiadau a fyddai'n rhwymo ei holynydd.

**78.** Yn y cyd-destun hwn, dywedodd y Prif Weinidog yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 6 Chwefror 2017:

> "… in terms of farming subsidies, I can give no assurances at all. What I know is that assurances have been given by the UK Government until 2020—beyond that, nothing. Now, we can't find £260 million out of our own budget to compensate farmers for the loss of European funding, which is why we make the point that it is another responsibility of the UK Government to find that money, as per the promise that was given in the referendum. The difficulty for farming is that if farming payments do become part of the block grant then, of course, farming is fighting against health and education for that funding. I'm sure that farmers would argue that a cleaner solution would be for an equivalent sum of money to be made available by the UK Government from the supposed Brexit dividend, and that money then shared on the same basis as it is now."[58]

## Ein barn ni

Mae lefelau priodol o gymorth ariannol i ffermwyr yn hanfodol er mwyn cynnal sector amaethyddol ffyniannus ac economi wledig fywiog. Rydym yn deall yn llwyr y bydd y cyfnod hwn o ansicrwydd yn peri pryder i'r sector. Yn benodol, bydd ffermwyr a'r rhai sy'n gweithio yn yr economi wledig yn pryderu am lefelau cyllid y dyfodol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a sut y caiff y cyllid hwnnw ei ddosbarthu.

I'r rhan fwyaf o ffermwyr yng Nghymru, y taliadau uniongyrchol a gânt o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yw'r gyfran helaethaf o'u hincwm. Yn 2014-15, roedd taliadau uniongyrchol yn cyfrif am gyfartaledd o 81% o elw net ffermydd Cymru ar gyfer pob math o fferm yng Nghymru. Mae cyllid i ffermwyr yn arwain at luosydd sylweddol y mae'r economi wledig yn elwa arno. Gwelsom hyn yn uniongyrchol pan ymhelwyd â fferm yng Ngheredigion yn ystod ein hymchwiliad - roedd y fferm honno wedi gwneud taliadau i 123 o fusnesau yn 2015/16, ac roedd 85 o'r rheini'n fusnesau lleol.

Yn ystod ymgyrch y refferendwm gwnaed amryw o ddatganiadau gan gefnogwyr blaenllaw yr ymgyrch i adael yr Undeb Ewropeaidd ynghylch dyfodol y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig pe bai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r datganiadau hyn wedi creu disgwyliadau

[56] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 20 Rhagfyr 2016
[57] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, paragraffau 152 a 155
[58] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 6 Chwefror 2017, paragraff 42

cryf a rhesymol o barhad mewn cyllid ar sail debyg i'r hyn sydd ar gael o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i barhau â'r cyllid hwnnw ar gyfer amaethyddiaeth yn parhau tan 2020 wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r sector yn y tymor byr, ond mae ansicrwydd o hyd ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd wedi hynny. Mae'n aneglur a fydd Llywodraeth y DU yn parhau i gynnal lefelau cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar ôl 2020 ynteu a fydd y cyllid ar gyfer Cymru yn amodol ar fformiwla Barnett. Beth bynnag fydd y sefyllfa, bydd yn rhaid i weinyddiaethau'r DU gytuno ar ddull o benderfynu sut y caiff cyllid ei ddyrannu yn y tymor hwy.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig mai ei bwriad fyddai cynnal y cyllid tan 2021 - diwedd tymor presennol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar Lywodraeth y DU yn cynnal y lefelau cyllid tan hynny.

Mae barn y Pwyllgor yn glir – rhaid i Lywodraeth y DU barhau i ddarparu'r cyllid ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig yng Nghymru ar y lefelau sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y PAC tan o leiaf 2020/21. Ar ôl hynny, y meincnod pwysicaf fydd cylch nesaf y PAC, o 2021-27. Dylid trosglwyddo'r cyllid hwnnw'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ac ni ddylai fod yn destun fformiwla Barnett. Byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru, yn ei thro, sicrhau bod y cyllid yn cael ei drosglwyddo'n llawn i amaethyddiaeth a datblygu gwledig.

Rydym felly yn galw ar y ddwy Lywodraeth i wneud ymrwymiad cyhoeddus i'r perwyl hwn i dawelu meddyliau ffermwyr a'r sector ehangach.

Os bydd y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd cyn 2020, ni fydd PAC yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol i'r DU ar gyfer blwyddyn derfynol ymrwymiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ystyried ffordd effeithiol o ddosbarthu cyllid a chytuno ar hynny, a hynny ar fyrder. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r trefniadau pontio ym Mhennod 5.

Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, gan rag-weld newidiadau tebygol i'r PAC, bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyfle i ailystyried y dull cyllido, i sicrhau ei fod yn cefnogi ei amcanion polisi. Wrth gwrs, byddai penderfyniadau ar newidiadau o'r fath yn amodol ar reolau Sefydliad Masnach y Byd; yn cael eu dylanwadu gan ddulliau cyllido yng ngweddill y DU; ac i raddau helaeth yn parhau i gael eu llywio gan ddatblygiadau o fewn yr Undeb Ewropeaidd, megis diwygio'r PAC. Rydym yn amlinellu'r dulliau posibl mewn mwy o fanylder yn Rhan 2 yr adroddiad hwn.

## Argymhellion:


**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth y DU ymrwymo i gynnal y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth ar y lefelau sydd ar gael o dan y PAC ar hyn o bryd tan o leiaf 2020/21. Ar ôl hynny, y meincnod pwysicaf fydd cylch nesaf y PAC, o 2021/27. Ni ddylid defnyddio fformiwla Barnett i gyfrifo'r cyllid hwn wedyn.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddyrannu cyllid ar y lefelau sydd ar gael o dan y PAC ar hyn o bryd tan 2020/21 a dylai egluro ei sefyllfa mewn perthynas â chyllid ar gyfer 2020/21 cyn gynted â phosibl.

# 04. Llafur a mudo

Mae'r Bennod hon yn egluro'r angen am fynediad parhaus i weithwyr o'r tu allan i'r DU ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol, proseswyr bwyd a'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac yn galw am strategaeth sgiliau i fynd i'r afael â lleihad posibl yn lefelau gweithwyr mudol.

**79.** Mae'r sector amaethyddol yn y DU yn dibynnu'n drwm ar weithwyr mudol. Er enghraifft, yn 2015, roedd 6.4% o gyfanswm gweithlu'r DU yn wladolion yr Undeb Ewropeaidd, ond yn y sector amaethyddol, roedd gwladolion yr Undeb Ewropeaidd yn 19.6% o gyfanswm nifer y gweithwyr rheolaidd. Y sector gweithgynhyrchu bwyd yw'r sector o'r gweithlu sy'n cynnwys y gyfran fwyaf o weithwyr a aned dramor, sef 38%. Gwyddom mai swyddi gwag yn y sector amaethyddol yw rhai o'r rhan anoddaf i'w llenwi.[59]




**80.** Yng Nghymru yn 2013, disgrifiwyd 49% o swyddi gwag amaethyddol yn 'Swyddi Gwag oherwydd Prinder Sgiliau' - swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi oherwydd nad oes pobl sydd a'r sgiliau priodol ar gael.[60]

**81.** Mae Arolwg Llafur yr NFU[61], a holodd ffermwyr yng Nghymru a Lloegr, yn dweud bod 43% o'r ymatebwyr yn credu, yn sgil lleihau'r nifer o weithwyr tymhorol sydd ar gael, y bydd prinder llafur yn effeithio ar eu busnes erbyn 2018.

**82.** Fodd bynnag, mae Cymru yn dibynnu llai ar weithwyr tymhorol oherwydd natur ei sector amaethyddol. Er enghraifft, mae ffigurau Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn y DU a gynhaliwyd gan Defra yn 2014, yn dangos bod Cymru yn cyflogi canran is o weithwyr tymhorol na'r DU drwyddi draw.[62]

---

[59] Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
[60] Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU
[61] Arolwg o'r Llafurlu yr NFU 2015
[62] Arolwg o'r Diwydiant Amaethyddol, Defra

### Barn rhanddeiliaid

**83.** Pwysleisiodd cyfranwyr bwysigrwydd cael gafael ar lafur o'r Undeb Ewropeaidd. Mae NFU Cymru yn dweud bod yn rhaid i'r diwydiant bwyd a diod allu cael gafael ar gyflenwadau angenrheidiol o lafur. Mae'n dweud, hyd yn oed o fewn gweithlu'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, ei bod yn fwyfwy anodd cael gafael ar lafur priodol. O ganlyniad, maent yn dadlau y dylid ystyried edrych y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd. Dywedasant:

> "The Welsh food and drink supply chain requires access to a flexible, skilled workforce. The number of non-UK born workers needed across the UK food chain for it to remain competitive is significant, official figures are hard to come by."[63]

**84.** Awgrymodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad y gellid trafod mynediad at lafur fel rhan o gytundeb dwyochrog:

> "A vital consideration to the viability of the sector is the need to be able to access a stable and productive workforce for the rural economy. Our farmers and food processes are particularly vulnerable to reduction in the current arrangements for free movement. Access to much needed labour can be negotiated with the EU as part of a bilateral free trade agreement so that our producers and supply chains are secure."[64]

**85.** Roedd Cynghrair Twristiaeth Cymru yn cytuno y byddai'n dymuno cadw gallu busnesau twristiaeth i gyflogi pobl o'r tu mewn i'r Undeb Ewropeaidd heb ddim cyfyngiadau ariannol na thymhorol. Dywedasant wrthym:

> "In common with many industries, tourism suffers from a shortage of labour with the necessary skills. Hence the number of EU nationals who have been attracted to work in the industry. For the UK as a whole it amounts to 15% to 20% of the total workforce, a far higher proportion than some other industries. For some tourism businesses in Wales they are an essential part of the workforce."[65]

**86.** Yn ystod ei ymchwiliad, gofynnodd y Pwyllgor am dystiolaeth gan fusnesau prosesu bwyd, ond ni chafodd unrhyw ymateb.

### Safbwynt Llywodraeth y DU

**87.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU yn dweud ei bod yn awyddus i reoli mewnfudo o'r Undeb Ewropeaidd, gan gydnabod ar yr un pryd werth mewnfudo dan reolaeth er mwyn dod â sgiliau ac arbenigedd i mewn:

> "We will remain an open and tolerant country, and one that recognises the valuable contribution migrants make to our society and welcomes those with the skills and expertise to make our nation better still…

[63] Tystiolaeth ysgrifenedig yr NFU
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig Cynghrair Twristiaeth Cymru

We will design our immigration system to ensure that we are able to control the numbers of people who come here from the EU. In future, therefore, the Free Movement Directive will no longer apply and the migration of EU nationals will be subject to UK law."[66]

**88.** Yn ei haraith i gynhadledd yr NFU ar 21 Chwefror 2017, dywedodd Andrea Leadsom AS, Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:

"As for seasonal agricultural workers, I have heard loud and clear the vital role they play in many farm businesses, not least the horticultural sector. But at the same time, we mustn't forget that a key factor behind the vote to leave the EU was to control immigration. So I want to find out what kind of labour you need, in food processing as well as farming, whilst exploring the role innovation can play in support of this."[67]

**89.** Yn 2015 cyhoeddodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod addewid i dreblu'r gweithdy prentisiaethau yn y diwydiant bwyd a diod erbyn 2020. Bydd yr addewid newydd yn arwain at gynyddu'r gweithlu prentisiaethau yn y sector o 1% i 3%. Mae'r targed yn adeiladu ar addewid presennol i sicrhau cynnydd o 20% yn nifer y prentisiaethau lefel uchel erbyn 2020 a mentrau eraill ar draws y sector i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau arfaethedig. Mae'r Ffederasiwn yn disgrifio hyn nid yn unig fel ffordd o ddenu mwy o bobl ifanc i'r diwydiant, ond fel offeryn pwysig i ddatblygu ein talentau ein hunain wrth geisio dibynnu llai ar weithwyr mudol.[68]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**90.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn dweud 'bydd Cymru'n parhau i fod angen mudwyr o wledydd yr UE i helpu i gynnal ein heconomi sector preifat a'n gwasanaethau cyhoeddus'. Mae'n rhoi nifer o enghreifftiau o hyn, a'r rhai sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn yw'r sector bwyd a diod (25% o'r gweithlu o'r tu allan i'r DU) a milfeddygon (mae 50% o'r rheini sy'n cofrestru yn y DU wedi cymhwyso mewn man arall yn yr Undeb Ewropeaidd). Mewn gwasanaethau hylendid cig, mae'r Papur Gwyn yn dweud bod rhyw 80% o'r gweithlu milfeddygaeth yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd o'r tu allan i'r DU.[69]

**91.** Mae'r Papur Gwyn yn dadlau, ar wahân i fyfyrwyr a'r rheini sy'n gallu eu cynnal eu hunain yn annibynnol, y dylid cysylltu hawl pobl i symud yn rhydd â chyflogaeth.

## Ein barn ni

Bydd cyfyngu ar fynediad i weithwyr mudol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith sylweddol ar y sector amaethyddol yn y DU.

Yn y sector amaethyddol yng Nghymru, yn wahanol i rannau eraill o'r DU, mae llai o ddibyniaeth ar weithwyr tymhorol. Fodd bynnag, mae'r sector amaethol yng Nghymru yn ddibynnol ar weithwyr o'r tu allan i'r DU drwy gydol y flwyddyn. Ar ôl Brexit, bydd amaethyddiaeth, y diwydiant twristiaeth a phroseswyr bwyd, yn benodol, yn parhau i fod angen gweithwyr mudol.

[66] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Pennod 5
[67] Ysgsrifennydd yr Amgylchedd yn siarad yng Nghynhadledd yr NFU, Defra
[68] Y Ffederasiwn Bwyd a Diod
[69] Diogelu Dyfodol Cymru, Pennod 5

Mae cynhyrchwyr Cymru yn dibynnu ar weithwyr mudol i ddarparu cynnyrch o safon i ddefnyddwyr am brisiau fforddiadwy.  Mae pryder dealladwy yng Nghymru y gallai unrhyw gyfyngu ar y gweithwyr mudol sydd ar gael olygu bod prinder llafur yn ein diwydiant prosesu bwyd, a allai olygu bod cwmnïau'n gorfod codi eu prisiau neu, o bosibl, yn dewis symud oddi yma.

Yng ngoleuni'r risgiau posibl i fusnesau ac economi Cymru, rhaid i lywodraeth y DU ystyried anghenion llafur Cymru wrth benderfynu ar bolisi mewnfudo yn y dyfodol.

Bydd ein sector amaethyddol yn parhau i fod angen mynediad i ystod lawn o sgiliau ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithredu nawr er mwyn lliniaru unrhyw risgiau a allai godi yn sgil lleihad posibl yn nifer y gweithwyr mudol sydd ar gael.

Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ystyried ei dull o gynllunio'r gweithlu ar gyfer y sector amaethyddol. Yn gyntaf, dylai weithio gyda'r sector i nodi ble y bydd prinder sgiliau yn y dyfodol. Yn ail dylai ystyried sut y gall gysoni ei pholisïau addysg a sgiliau gydag anghenion y sector.

Mae'r Pwyllgor yn nodi ymdrechion Llywodraeth y DU i gynyddu niferoedd y prentisiaethau yn y diwydiant bwyd a diod. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw dull o'r fath yn briodol i Gymru.

## Argymhellion:

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth y DU gydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion llafur Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn eu trafodaethau ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddechrau gweithio ar unwaith i asesu'r prinder sgiliau y gall busnesau Cymru eu hwynebu yn sgil lleihad posibl mewn gweithwyr mudol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth sgiliau ar gyfer y sector o fewn y 12 mis nesaf, sy'n amlinellu sut y caiff unrhyw brinder sgiliau ei ddiwallu ynghyd â chyfleoedd newydd drwy gyfrwng polisïau hyfforddi ac addysg.

# 05. Trefniadau pontio

Bydd y newidiadau sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn sylweddol ac, o bosibl, yn gymhleth. Mae'r bennod hon yn ymchwilio i'r angen am drefniadau pontio wrth i'r DU a Chymru symud tuag at fframweithiau rheoleiddiol a systemau cymorth newydd.

Barn rhanddeiliaid

**92.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth o blaid cyfnod pontio i ddechrau pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd rhanddeiliaid y bydd angen amser ar reolwyr tir i ymaddasu i'r polisi a'r trefniadau cyllido newydd. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y gallai rhai ffermwyr fod mewn sefyllfa fregus yng Nghymru pe na bai cyfnod pontio addas yn cael ei ganiatáu:

> "There must be a fair transition period towards new arrangements that provides sufficient time for farmers and land managers to adapt. This is particularly important for the most economically vulnerable, such as those in the extensive livestock sector, typically associated with the uplands, who are often farming in marginal areas but which are of high environmental and cultural value"[70]

**93.** Dywedodd yr Athro Janet Dwyer o Brifysgol Swydd Gaerloyw fod angen sefydlogrwydd drwy gydol y cyfnod ansicr hwn er mwyn osgoi difrod mawr i rannau o'r sector amaethyddol. Rhybuddiodd rhag symud oddi wrth bolisïau tebyg i rai'r PAC yn y tymor byr i'r tymor canol.[71]

**94.** O ran hyd cyfnod pontio o'r fath, dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod angen o leiaf 10 mlynedd er mwyn cyflwyno polisïau amaethyddol newydd yn raddol a rhoi cyfle i'r diwydiant ymaddasu iddynt.[72] Dywedodd Hybu Cig Cymru:

> "I stress the importance of interim and transitional measures that need to be put in place on day one, but which can be phased out over a period of, say, up to 10 years…"[73]

**Safbwynt Llywodraeth y DU**

**95.** Dywed Papur Gwyn Llywodraeth y DU:

> "It is, however, in no one's interests for there to be a cliff-edge for business or a threat to stability, as we change from our existing relationship to a new partnership with the EU. Instead, we want to have reached an agreement about our future partnership by the time the two year Article 50 process has concluded. From that point onwards, we believe a phased process of implementation, in which the UK, the EU institutions and Member States prepare for the new arrangements that will exist between us, will be in our mutual interest."[74]

---

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyswllt Amgylchedd Cymru
[71] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 28 Medi, paragraff 5
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
[73] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 21 Ionawr 2017, pargraff 83
[74] The United Kingdom's exit from and new partnership with the European Union, Pennod 5

**96.** Dywedodd David Jones AS, y Gweinidog Gwladol yn Adran Gadael yr Undeb Ewropeaidd wrth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol:

> "… it's fair to say that there is an emerging consensus not only in the British Government, but also in our interlocutors in the EU that, in certain areas, an implementation period will be necessary, which we don't anticipate will be a lengthy period but should be sufficient to cover any practical problems that might arise."[75]

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**97.** Yn ei Phapur Gwyn, mae Llywodraeth Cymru yn dweud:

> "Mae'n amlwg y bydd yn heriol llwyddo i negodi cytundeb i ymadael â'r UE a chytundeb economaidd newydd rhwng y DU a'r UE yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd ar ôl tanio Erthygl 50. Felly mae'n hanfodol cytuno, fel dewis wrth gefn a dros dro, ar drefniadau pontio sy'n caniatáu i'r DU barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl a bod yn aelod o Undeb Tollau'r UE wrth ystyried a negodi perthynas fasnach ar gyfer y dyfodol."[76]

## Ein barn ni

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, bydd y newidiadau sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn sylweddol ac yn bellgyrhaeddol. Ers dros ddeugain mlynedd, mae'r DU wedi gweithredu yn unol â systemau a strwythurau sy'n deillio o'i haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae cyflwyno mecanwaith cyllid i ddisodli taliadau'r PAC; fframwaith rheoleiddiol newydd a safonau lles anifeiliaid cyffredin yn enghreifftiau o'r llu o faterion cymhleth y bydd angen eu negodi a'u datrys pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn deall yn llwyr, felly, y pryder o fewn y sector a'r galwadau cryf am drefniadau pontio.

Nodwn fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ill dwy wedi ymrwymo i sicrhau na fydd newid yn y trefniadau cyllido a pholisi yn y tymor byr, ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r sector yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r her sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd mor gymhleth fel bod angen trefniadau pontio aml-haen. Yn ogystal â'r angen am drefniadau i hwyluso'r pontio o fframwaith rheoleiddiol a luniwyd yn yr Undeb Ewropeaidd i un a luniwyd yn y DU, bydd angen pontio'n esmwyth i unrhyw bolisïau neu fecanweithiau newydd y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno eu cyflwyno o fewn y fframwaith rheoleiddiol trosfwaol hwnnw.

Credwn fod angen trefniadau pontio cynhwysfawr er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol yn deillio o unrhyw newidiadau ac i roi cymaint o sicrwydd â phosibl i'r sector yng Nghymru

Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae'r sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd cyllid ar gyfer amaethyddiaeth yn parhau ar yr un lefel tan 2020 yn awgrymu y bydd cyfnod lle y bydd cyllid ar gyfer

[75] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 13 Chwefror 2017, paragraff 336
[76] Diogelu Dyfodol Cymru, Pennod 9

amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn parhau yn unol â'r system PAC bresennol ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd.

Dylai unrhyw drefniant cyllido ar gyfer y dyfodol sy'n cwmpasu'r cyfnod interim hwn gael ei gytuno gan yr holl weinyddiaethau datganoledig.Credwn y bydd newidiadau i drefniadau cyllido sy'n sylweddol wahanol i'r model cyllido presennol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn galw am gyfnod pontio sy'n cyfateb i gyfnod y cylch Polisi Amaethyddol Cyffredin cyfredol yn ogystal â'r cylch nesaf.

Yn rhan dau o'r adroddiad hwn, rydym yn awgrymu model o gymorth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru ar gyfer y dyfodol, a fydd yn seiliedig ar ganlyniadau. Credwn fod hyn yn wahanol iawn i'r arfer presennol a chredwn y byddai angen cyfnod pontio sylweddol er mwyn symud i'r model newydd hwn.

## Argymhellion:

**Argymhelliad 14.** Rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sicrhau bod ystyried trefniadau pontio yn rhan ganolog o rôl Pwyllgor Gweinidogion arfaethedig y DU.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sicrhau cyfnod pontio ar gyfer trefniadau cyllido yn y dyfodol, yr un hyd â gweddill cylch cyllido presennol y PAC a'r cylch cyllido nesaf.





# **Rhan dau:** Cynigion ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru

Yn ail ran yr adroddiad hwn mae'r Pwyllgor yn ymchwilio i botensial model taliadau a chymorth ar gyfer rheoli tir sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r adroddiad yn galw am sicrhau canlyniadau yn y meysydd a ganlyn:

- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys atal llifogydd a gwella ansawdd dŵr
- Cefnogi sector cynhyrchu bwyd gydnerth sy'n fwy hunanddibynnol gan gynhyrchu bwyd o'r ansawdd uchaf
- Cynnal coedwigoedd a choetiroedd
- Diogelu a gwella bioamrywiaeth
- Rheoli'r dirwedd er budd twristiaeth, hamdden a chymunedau lleol
- Meithrin y Gymraeg a chymunedau gwledig bywiog

# 06. Mecanweithiau ar gyfer taliadau a chymorth yn y dyfodol

Mae'r bennod hon yn ystyried y mecanweithiau cyllido presennol ar gyfer amaethyddiaeth, gan gynnwys taliadau PAC, ac yn ymchwilio i'r potensial ar gyfer newid i system o gymorth ariannol sy'n seiliedig ar sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Mae Pennod 7 yn cynnwys rhagor o fanylion am y mathau o ganlyniadau y gallai system o'r fath fod yn seiliedig arnynt.

**98.** Fel y nodir ym mhennod 5, y prif fecanwaith ar gyfer rhoi cymorth i'r sector amaethyddol yn sgil y ffaith bod y DU yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd fu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, bydd cyfle i Gymru gynllunio mecanweithiau cymorth a thaliadau, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd ar gymorth ariannol.

Beth yw taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a sut mae'r rhain yn gweithio?

Rhennir cyllid y PAC yn ddwy 'Golofn'. Mae Colofn 1 yn cynnwys cymorth incwm uniongyrchol i ffermwyr a dulliau rheoli'r farchnad. Mae taliadau uniongyrchol Colofn 1 wedi datblygu'n daliadau sy'n seiliedig ar nifer yr hectarau o dir amaeth cymwys y mae ffermwyr yn berchen arno yn hytrach na'i fod yn seiliedig ar faint mae'r ffermwr yn ei gynhyrchu o fewn cyfnod cyfeirio hanesyddol. Mae taliadau Colofn 1 yn amodol ar reolwyr tir yn parchu rheolau "trawsgydymffurfio" penodol ynglŷn â'r amgylchedd, newid yn yr hinsawdd, tir mewn cyflwr amaethyddol da, safonau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid.

Y Golofn Datblygu Gwledig yw Colofn 2 ac mae'n darparu cymorth ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig yr Aelod-wladwriaethau a'r Rhanbarthau. Mae'n bosibl i reolwyr tir gael cyllid ar gyfer camau a gymerwyd i wella'u hamgylchedd a'u cymuned leol. Mae Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yn cynnwys y cynllun amaeth-amgylcheddol, Glastir, sy'n ceisio helpu ffermwyr i warchod a gwella'r amgylchedd mewn ardaloedd gwledig. Noddir Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru gan Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd yr UE ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac mae'n cael ei chydariannu gan Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer PAC 2014-2020, roedd modd i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau drosglwyddo hyd at 15% o gyllid y PAC o Golofn 1 i Golofn 2. Trosglwyddodd Llywodraeth Cymru y ganran fwyaf posibl, sef 15 y cant i'r rhaglen datblygu gwledig[77] (y ganran uchaf yn y DU) i gydnabod manteision mesurau amgylcheddol a datblygu cymunedol.

## Beirniadaeth ar y PAC a'r taliadau uniongyrchol

### Barn rhanddeiliaid

**99.** Roedd nifer o'r rhanddeiliaid yn feirniadol o system bresennol y PAC, gan ddweud ei bod yn rhy gymhleth a biwrocrataidd ac nad yw wedi cyflawni ei hamcanion amaethyddol nac amgylcheddol. Roedd cefnogaeth eang o blaid cynlluniau symlach a mwy hyblyg yn y dyfodol.

[77] Cwestiynau i'r Prif Weinidog, 14 Ionawr 2014

**100.** Pwysleisiodd cynrychiolwyr o fyd ffermio, megis NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant a Thegwch i'r Ucheldir bwysigrwydd taliadau uniongyrchol o dan Golofn 1 i ategu incwm ffermydd a gwella'u proffidioldeb, yn enwedig mewn ardaloedd ymylol.

**101.** Dywedodd nifer o sefydliadau amgylcheddol nad yw taliadau uniongyrchol yn cynnig gwerth am arian. Credai RSPB Cymru fod cymorth incwm Colofn 1 yn rhwystr rhag datblygu oherwydd ei fod wedi golygu nad oes dim cymhelliant wedi bod i ymateb i bwysau a chyfleoedd y farchnad.

**102.** Roedd gwahaniaeth barn ynghylch effeithiolrwydd y dull presennol o daliadau ar wahân ar gyfer Colofn 1 a Cholofn 2. Awgrymwyd y dylid cyfuno'r taliadau o dan y ddwy Golofn yn un taliad, ac y dylai fod cysylltiad agosach rhwng rheoli tir a chanlyniadau amgylcheddol. Roedd yr Athro Peter Midmore o Brifysgol Aberystwyth, yn cefnogi integreiddio taliadau Colofn 1 a Cholofn 2 ac yn awgrymu bod taliadau uniongyrchol wedi tueddu i gael eu cyfalafu yng ngwerth y tir, gan greu rhwystr i ffermwyr newydd rhag ymuno â'r sector.[78]

**103.** Dywedodd Stephen James, Llywydd NFU Cymru:

> "I would like to move away from pillars completely and call it one payment, which supports agriculture to become a world-leading producer of food and environmental goods, and access—you know, £2.5 billion tourism industry relies quite heavily on agriculture as well, because it allows access to the countryside."[79]

**104.** Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai rheolau presennol Sefydliad Masnach y Byd gyfyngu ar y posibilrwydd o gyflwyno un cynllun a fyddai'n adlewyrchu blaenoriaethau'r ddwy golofn. Ar hyn o bryd, caniateir taliadau uniongyrchol o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd ond mae taliadau o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn gyfyngedig i 'hepgor incwm' ar gyfer cydymffurfio â'r cynllun dan sylw. Pwysleisiwyd hyn gan Undeb Amaethwyr Cymru:

> "The WTO Agreement on Agriculture states "The amount of [agri-environment] payment shall be limited to the extra costs or loss of income involved in complying with the government programme" [Annex 2, Paragraph 12. "Payments under environmental programmes"], thereby placing significant restrictions on the degree to which agri-environment payments can provide income for farms and related businesses involved in agricultural supply chains."[80]

**105.** Roedd Undeb Amaethwyr Cymru o blaid cynlluniau amaeth-amgylcheddol ond rhybuddiodd y byddai unrhyw gymorth yn y dyfodol yn gyfyngedig i'r hyn a ganiateid o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd:

> "Systems must be introduced which ensure farmers are more fairly rewarded for their contributions to water management, carbon sequestration and the delivery of other public goods … Support for agri-environment schemes must be continued, while recognising the far-reaching adverse consequences of an inappropriate balance between direct support and agri-environment payments

[78] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 28 Medi 2016, paragraff 9
[79] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, paragraff 12
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru

> given the limitations set out in Annex 2 of the World Trade Organisation (WTO) Agreement on Agriculture already referred to."[81]

### Barn Llywodraeth Cymru

**106.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o blaid dull integredig, symlach ar gyfer taliadau i ffermydd a dywedodd:

> "Certainly, yes, I think one scheme would be better. Red tape and all the issues around the red tape around CAP, I think, was one of the reasons why the agricultural sector were generally 'leavers'. Whenever I ask farmers, 'Why did you vote "leave"?' That is probably the No. 1 reason why. So, I have said that we need to get away from pillar 1 and pillar 2 and have one scheme. So, should it be simpler? Absolutely."[82]

## Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE)

**107.** Gall ffermwyr ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau drwy reoli tirweddau. Gwasanaethau sy'n cynnig manteision ehangach i'r gymdeithas yw gwasanaethau ecosystemau, fel dal a storio a rheoli carbon i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; a rheoli dŵr er mwyn lliniaru llifogydd. Dangoswyd bod y ffordd y rheolir tirweddau er mwyn cynnal blodau gwyllt a safleoedd nythu'n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau pryfed peillio gwyllt sydd, yn eu tro, yn peillio cnydau.

**108.** Casgliad Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm oedd bod 60% o'r gwasanaethau ecosystemau a aseswyd yn cael eu diraddio neu'n cael eu defnyddio mewn ffordd anghynaliadwy.[83] Nod Glastir, cynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru, yw helpu ffermwyr i gynnal a gwella'r gwasanaethau ecosystemau hyn drwy ragnodi amgylcheddol.

**109.** Tynnwyd sylw'r pwyllgor at werth ffrydiau cyllido arloesol ar gyfer buddsoddi yn yr amgylchedd drwy'r sector preifat. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

> "Economic conditions have an impact on the scale of resources available for the implementation of future agricultural and rural polices. This emphasizes the need to adopt an innovative approach to intervention. For example, the current drive in wider business to increase green credentials may facilitate the development of additional funding streams for environmental investment."

**110.** Cynlluniwyd Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru o dan ei Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2014 – 2020 i gefnogi cynlluniau TWE. Mae'n cynnig grantiau i gefnogi prosiectau ar y cyd sy'n hybu ffyrdd cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol a'i nod yw:

> "darparu cymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn gwella'r ffordd y rheolir ein hadnoddau naturiol ac a fydd wrth wneud hynny'n cyfrannu at les ein cymunedau gwledig.
>
> Mae'r cynllun yn cynnig grantiau i grwpiau cydweithredol sy'n awyddus i:
>
> wella ein hadnoddau naturiol a'r buddiannau y maent yn eu cynnig

81 Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
82 Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, paragraff 230
83 Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm

cymryd camau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr

gwella busnes a gwella'r gallu'r gymuned i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Gall y grantiau amrywio o isafswm o £10,000 hyd at uchafswm o £5,000,000 i helpu i sefydlu a hwyluso cynlluniau cydweithio newydd drwodd i gamau cydlynu uchelgeisiol ar raddfa'r dirwedd lle bydd sawl parti'n cyfrannu er mwyn sicrhau manteision sy'n para ar draws ein cymunedau."[84]

**111.** Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ystyriodd rhagflaenydd y Pwyllgor hwn enghreifftiau o brosiectau TWE fel rhan o'i ymchwiliad i reoli tir yn gynaliadwy. Daeth y Pwyllgor hwnnw i'r casgliad:

"Rydym yn credu bod y cynllun datblygu gwledig nesaf yn cynnig cyfle pwysig i dreialu a phrofi modelau taliadau am wasanaethau ecosystemau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod y ffordd y cyfrifir y taliadau'n cyfyngu ar allu'r Rhaglen Datblygu Gwledig i adlewyrchu gwir werth y gwasanaethau a ddarperir gan reolwyr tir ond rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu dull mwy creadigol o gyfrifo taliadau ar gyfer cynlluniau perthnasol."[85]

**112.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru ar y pryd argymhelliad y Pwyllgor mewn egwyddor, gan ddweud

"[…] Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut orau i alinio cymorth o dan y cynllun datblygu gwledig i gyflenwi gwasanaethau ecosystemau. Byddwn hefyd yn parhau i ymchwilio i ffyrdd eraill o ysgogi mecanweithiau marchnad i ddarparu buddsoddiad i ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem a oruchwylir gan reolwyr tir y tu allan i'r cynllun datblygu gwledig."[86]

## Barn rhanddeiliaid

**113.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod

"gallu ffrwyno arian Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) fel y'i gelwir, yn debygol o chwarae rôl gynyddol ym maes rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy."[87]

**114.** Aeth ymlaen i ddweud:

"Drwy gydol proses ddrafftio polisi amaethyddol a gwledig yn y dyfodol, dylid cadw mewn cof fel cyd-destun pwysig bod angen hwyluso a rheoleiddio marchnadoedd newydd fel na fyddwn yn anfwriadol nac yn ddiangen yn llesteirio arloesi a rhagor o ddatblygu ym maes TWE."[88]

[84] Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
[85] Rheoli Tir yn Gynaliadwy, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
[86] Rheoli Tir yn Gynaliadwy, Ymateb Llywodraeth Cymru
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru

**115.** Mynegwyd cefnogaeth hefyd o blaid datblygu'r TWE gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, a ddywedodd:

> "Ecosystem services provide a scientific backdrop to properly defining public goods. Land management practices that include restoration of habitats; biodiversity maintenance and enhancement; carbon storage and sequestration; water catchment control and natural management and prevention of flood risk; management of water quality for clean drinking water; protection of landscape and provision of opportunities for access, recreation and tourism are all important ecosystem services. However, some of these receive little or no economic benefit. Ecosystem services provided by land managers ought to be rewarded, either though market mechanisms, or public spending, such as Payments for Ecosystem Services (PES schemes)."[89]

## Dull gweithredu'n seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy

**116.** Awgrymodd rhanddeiliaid y dylai mecanweithiau newydd i gefnogi rheoli tir gael eu seilio ar gyflawni canlyniadau cynaliadwy.

**117.** Mae talu ar sail canlyniadau'n digwydd eisoes yng Ngweriniaeth Iwerddon mewn cynlluniau a gefnogir gan arian yr Undeb Ewropeaidd, o dan Raglen Burren[90]. Cyfarfu dirprwyaeth o'r Pwyllgor â chynrychiolwyr Rhaglen Burren yn ystod ei hymweliad â Dulyn.

**118.** Dysgodd aelodau'r Pwyllgor fod y rhaglen yn gofyn i ffermwyr enwebu a chyd-ariannu camau cadwraeth ar eu ffermydd eu hunain. Mae'r camau'n cynnwys adfer cynefinoedd, rheoli prysgwydd, trwsio waliau cerrig, gatiau newydd, llwybrau mynediad a darparu dŵr. Seilir y taliadau ar ansawdd y cynnyrch gyda'r nod o wobrwyo, er enghraifft gwarchod cynefinoedd dynodedig ar gyfer rhywogaethau prin a rhai sy'n dirywio neu wella ansawdd dŵr. Mae buddsoddi i wella seilwaith y fferm hefyd yn rhan o'r pecyn cyllido.

### Barn rhanddeiliaid

**119.** Cyfeiriodd Pori Natur a Threftadaeth a Chymdeithas Eryri at raglen Burren fel enghraifft o gynllun llwyddiannus sydd wedi'i dargedu'n lleol, sy'n cael ei dywys gan ffermwyr ac sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

**120.** Disgrifiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y math o gynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yr hoffai weld rhagor ohonynt yn y dyfodol, sef:

> "… annual payments for outcomes such as the provision and maintenance of habitats on farms and large-scale habitat restoration programmes - for example, peatland restoration and creation of new woodland."[91]

**121.** Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd o blaid dull yn seiliedig ar ganlyniadau ac yn pwysleisio y dylai fod:

> "… rooted in evidence, and challenging but achievable. Prioritisation of the actions identified should be based on achieving optimal public benefit."[92]

---

[89] Cyswllt Amgylchedd Cymru, paragraff 16
[90] Rhaglen Burren
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyswllt Amgylchedd Cymru

**122.** Yn ystod ein hymweliad â ffermydd yng Ngheredigion, clywsom yn uniongyrchol am bwysigrwydd parhad yn y cyllid i bob rhan o'r sector amaethyddol. Mae'r diwydiant llaeth yn arbennig yn ddibynnol ar fanwerthwyr ac mae'r gallu i wneud elw yn sensitif i newidiadau mewn prisiau. Gwyddom hefyd fod ffermydd llaeth yng Nghymru yn llai na chyfartaledd y DU a bod ganddynt gostau cynhyrchu uwch.

## Ein barn ni

Yn Rhan Un o'r adroddiad hwn, cyfeiriwyd at y blociau adeiladu ar gyfer dyfodol polisïau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru, gan gynnwys bod angen i Lywodraeth y DU ymrwymo i gynnal y lefelau cyllido presennol ac i Lywodraeth Cymru, yn ei thro, ddyrannu'r cyllid hwnnw i gefnogi'r sector.

Yn y dyfodol, efallai y bydd cyfle i Lywodraeth Cymru adeiladu ar y modelau talu presennol, a datblygu system o gymorth sy'n cael ei wneud yng Nghymru ac ar gyfer Cymru. Wrth gwrs, gallai Llywodraeth Cymru barhau â model tebyg i'r un presennol, gan ei ddiwygio neu ei addasu er mwyn sicrhau cyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl. Credwn, fodd bynnag, bod cyfle i Gymru yn awr fod yn fwy uchelgeisiol ac arloesol.

Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r potensial o gyflwyno mecanweithiau cymorth sy'n sail i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel ac sy'n sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Dylid cynnig cymhellion i reolwyr tir i gynnal a gwella bioamrywiaeth er mwyn gwarchod tirwedd sy'n denu twristiaeth, sy'n cyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd ac sy'n darparu manteision amgylcheddol eraill, megis atal llifogydd a gwella ansawdd yr aer. Dylai'r mecanweithiau cymorth hyn gynnwys system o Daliadau am Wasanaethau Ecosystemau.

Credwn fod datblygu dull newydd o ddarparu cymorth cyllido yn cynnig y cyfle i ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r sector llaeth yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector llaeth yng Nghymru, gan gynnwys cynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr, i ddatblygu strategaeth i gynorthwyo'r sector yng Nghymru. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio gyda rhanddeiliaid i sut y gellir rhoi dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy ar waith yn y sector llaeth. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn her.

Rydym yn cydnabod y byddai angen i unrhyw fodel newydd o gymorth ariannol gydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Cawsom ein calonogi o weld cynlluniau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael eu rhoi ar waith yn Iwerddon, o dan fframweithiau presennol yr Undeb Ewropeaidd. Credwn y dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod yr hyblygrwydd i gyflwyno cynlluniau o'r fath ar gael i Lywodraeth Cymru ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae symud tuag at system o'r fath yn ymrwymiad sylweddol a rhaid sicrhau cyn lleied o risg â phosibl i'r sector ac i'r economi wledig ehangach. Ym mhennod 5, dywedwyd y byddai newidiadau i drefniadau cyllido sy'n sylweddol wahanol i'r model cyllido presennol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn galw am gyfnod pontio sy'n cyfateb i gyfnod y cylch Polisi Amaethyddol Cyffredin cyfredol yn ogystal â'r cylch nesaf.

Ym mhennod 7, byddwn yn sôn yn fwy manwl am y mathau o ganlyniadau y credwn y dylid eu cefnogi o dan fodel cymorth newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

[92] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru

## Argymhellion:

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system o gymorth sylfaenol sy'n seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy a chynhyrchu bwyd o ansawdd uchel. Dylai cyflwyno system o'r fath fod yn amodol ar gyfnod pontio o hyd nes ddiwedd cylch nesaf y PAC.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynllun ar gyfer y diwydiant llaeth, drwy ymgynghori â chynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr. Dylai'r cynllun hwn nodi sut y bydd cynhyrchwyr, dosbarthwyr a chyflenwyr yn gallu pontio o'r model cyllido presennol i system gymorth yn seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy.

# 07. Canlyniadau cynaliadwy o ran rheoli tir

Yn y bennod flaenorol, roeddem o blaid datblygu model taliadau a chymorth ar gyfer rheoli tir sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r canlyniadau yr hoffem eu gweld yn sgil y polisïau rheoli tir:

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys atal llifogydd a gwella ansawdd dŵr;

Sector cynhyrchu bwyd gydnerth sy'n fwy hunanddibynnol ac sy'n cynhyrchu bwyd o'r ansawdd uchaf;

Cynnal coedwigaeth a choetiroedd sy'n gynaliadwy;

Diogelu a gwella bioamrywiaeth;

Rheoli'r dirwedd er budd twristiaeth, hamddden a chymunedau lleol;

Meithrin y Gymraeg a chymunedau gwledig bywiog.

## Beth yw rheoli tir yn gynaliadwy?

**123.** Mae datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gyfrifol er budd cenedlaethau'r dyfodol wedi'i ymgorffori yn y gyfraith, yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016. Mae ffermwyr yn ganolog i gyflawni'r ymrwymiadau hynny gan eu bod yn rheoli dros 80% o arwynebedd tir Cymru,[93] ac yn cynnal ystod o weithgareddau a fydd yn arwain at fanteision amgylcehddol a chymdeithasol. Gellir disgrifio'r gweithgareddau hyn fel 'rheoli tir'.

**124.** Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymgorffori yn y gyfraith 'rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' sy'n cael ei ddiffinio fel:

> "…defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddaw yn eu sgil. Drwy wneud hyn, mae'n cwrdd ag anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy, ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a osodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."

**125.** Disgrifiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sut y gall rheoli tir gyfrannu at gyflawni'r saith Nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys:

– datblygu economi wledig carbon isel, gan ddefnyddio ffynonellau ynni mwy adnewyddadwy, a sicrhau amodau gwaith teg a diogel i weithwyr (Cymru lewyrchus);

– cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol ac iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r capasiti i addasu i newid, er enghraifft newid yn yr hinsawdd (Cymru wydn);

[93] Tystiolaeth ysgrifenedig NFU Cymru

- cynyddu mynediad i ddeiet iach a chytbwys, cefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol drwy bolisïau caffael, a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi gwledig a salwch (Cymru iachach);
- darparu cymorth i ardaloedd gwledig ac amaethyddiaeth er mwyn hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg. Yn draddodiadol, mae cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig (Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu);
- gwell amodau gwaith i weithwyr amaeth ac ail-greu'r berthynas rhwng cymunedau trefol a gwledig (Cymru sy'n fwy cyfartal);
- cefnogi prosiectau cymunedau gwledig a chynyddu mynediad i newydd-ddyfodiad i fyd amaeth (Cymru o gymunedau cydlynus); and
- gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru e.e. drwy ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ddefnydd tir a bwyd, yn ogystal ag effaith allyriadau o'r sector (Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang).

**126.** Disgrifiodd RSPB y broses o reoli tir fel a ganlyn:

> "restores and protects the soil, air, water and biodiversity (wildlife and habitats) that society as well as rural businesses depend on and value;
>
> produces sustainable amounts of safe, healthy food and timber;
>
> provides a diverse range of sustainable products that generate income and employment for rural businesses and contributes to a diverse rural economy;
>
> supports vibrant rural communities;
>
> fashions landscapes socially valued for their distinctive natural, cultural and heritage characters;
>
> reduces risks from the impacts of climate change; and is
>
> globally responsible and makes a positive contribution to global well-being."[94]

[94] Tystiolaeth ysgrifenedig yr RSPB

# Newid yn yr Hinsawdd

**127.** Mae rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn amlinellu dull newydd o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i fesur. Dyma rai o'r gofynion a nodir yn y Ddeddf:

– Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na'r llinell sylfaen (1990 neu 1995, yn dibynnu ar y nwy tŷ gwydr) a darpariaeth i Lywodraeth Cymru allu cynyddu'r targed hwn;

– Erbyn diwedd 2018 rhaid i Lywodraeth Cymru osod targedau dros dro ar gyfer allyriadau erbyn 2020, 2030 a 2040. Rhaid gosod y rhain ar lefel y mae Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod yn gyson â chyrraedd y targed 2050;

– Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o bum mlynedd, rhaid i Lywodraeth Cymru osod y cyfanswm uchaf ar gyfer allyriadau net Cymru (cyllideb garbon); a

– Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried cytundebau rhyngwladol i gyfyngu ar gynnydd yn y tymheredd cyfartalog byd-eang.

**128.** Gall rheolwyr tir helpu i fodloni rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd drwy ymyriadau megis lleihau unrhyw darfu ar briddoedd cyforiog o garbon a phlannu coed. Dywedodd Tegwch i'r Ucheldiroedd y profwyd bod rheoli mawn ar yr ucheldir yn ddull cost-effeithiol o gynyddu dal a storio carbon a dywedodd:

> "Land managers should be appropriately compensated for the difficult work of managing grazing on peat land where there are already restrictions on erecting fencing and other management tools. Organic farming is another area that should be financially supported to help Wales meet the greenhouse gas emissions targets set out in the 'Environment (Wales) Bill'."[95]

## Ein barn ni

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein dymuniad i weld polisi sy'n annog lleihau'r ôl-troed carbon wrth inni gynhyrchu a phrosesu bwyd a rhoi cymhelliant i bobl ddal a storio carbon, er mwyn lliniaru'r risgiau yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae ffermio organig yn cynnig templed ar gyfer cyflawni'r nodau hyn.

Dylai camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fod yn ganolog i ddatblygu unrhyw fecanweithiau cymorth newydd yn seiliedig ar ganlyniadau. Bydd system sy'n seiliedig ar ganlyniadau'n galluogi Llywodraeth Cymru i roi camau ar waith a fydd yn help iddi gyrraedd ei thargedau uchelgeisiol o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% erbyn 2050.

Mae gan reoli tir swyddogaeth hollbwysig mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, yn arbennig mewn perthynas â rheoli dalgylchoedd dŵr. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar fyrder ei chynigion sy'n datblygu ar reoli llifogydd.

Rhaid i unrhyw gymorth yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig gyfrannu at gyflawni'r targedau statudol, y dyheadau a'r nodau sydd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[95] Tystiolaeth ysgrifenedig Tegwch i'r Ucheldiroedd

### Argymhellion:

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn y dyfodol ar gyfer rheolwyr tir yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau sy'n cyfrannu at y targedau uchelgeisiol ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru fel y nodir yn neddfwriaeth Cymru megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016.

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion i liniaru ac atal llifogydd naturiol, a hynny ar fyrder.

# Cynhyrchu bwyd

**129.** Bydd cynhyrchu bwyd o ansawdd da yn ganolog i reoli tir a dylai barhau i fod felly.

**130.** Roedd NFU Cymru, y Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI) a Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y dylai'r sector barhau i ganolbwyntio ar gynhyrchu bwyd o ansawdd da yn unol â'r safonau uchaf mewn perthynas â'r amgylchedd a lles anifeiliaid. Dywedodd yr RSPB y dylid chwilio am farchnadoedd sy'n adlewyrchu arbenigedd cynaliadwy cynnyrch Cymru.[96] Dywedodd CFfI:

> "Mae sicrhau bwyd ar gyfer ein cenedl yn wyneb heriau byd-eang fyn gorfod bod yn flaenoriaeth a rhaid i Gymru barhau i gael ei gweld yn wlad sy'n cynhyrchu bwyd o'r tarddiad a'r ansawdd gorau gan ofalu am yr amgylchedd ar yr un pryd."[97]

**131.** Awgrymodd Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd, er mwyn mynd i'r afael â heriau wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd: "the Welsh agricultural sector could differentiate itself by producing high quality products with high environmental, health, animal welfare, and labour standards. These standards, like the labelling of GM-free products, would lead to products being sold at premium prices".[98]

**132.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai angen i gynhyrchion Cymru gydymffurfio â safonau'r Undeb Ewropeaidd er mwyn masnachu â marchnad yr Undeb Ewropeaidd.[99]

## Enwau bwyd gwarchodedig yr Undeb Ewropeaidd

**133.** Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid bwysigrwydd cynlluniau enwau bwyd gwarchodedig yr Undeb Ewropeaidd i fusnesau Cymru. Rhai o'r cynhyrchion o Gymru sydd â statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig ar hyn o bryd yw Halen Môn, Cig Oen Cymru, Tatws Cynnar Sir Benfro, Cig Eidion Cymru, Porc Pedigri Cymru sy'n cael ei fagu yn y dull traddodiadol, gwin rhanbarthol Cymru a Ham Caerfyrddin. Mae gan Gymru hefyd gynnyrch sydd â statws Dynodiad Tarddiad Gwarchodedig, gan gynnwys Cregyn Gleision Conwy a gwin Cymru.

**134.** Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi rhoi gwarchodaeth i lawer o ddynodiadau daearyddol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer gwinoedd, gwirodydd a bwyd drwy gytundebau dwyochrog a chofrestriadau uniongyrchol at ddibenion sicrhau consensws byd-eang i warchod cynhyrchion arbenigol lleol a rhanbarthol. Mae'r cynhyrchion yn cynnwys Tequila Mecsico a choffi Colombia. Ni fydd gadael yr Undeb Ewropeaidd o reidrwydd yn golygu na fydd cynhyrchion Cymru yn gallu parhau i elwa o'r cynllun hwn yn y dyfodol.

## Garddwriaeth

**135.** Argymhelliad nifer o academyddion, yr RSPB, Cymdeithas y Pridd a'r Ganolfan Ymchwil Organig oedd y dylai Cymru yn y tymor hir anelu at ehangu ei chynnyrch amaethyddol, gan gynnwys rhagor o lysiau a llai o gig.

---

[96] Tystiolaeth ysgrifeneidg RSPB Cymru
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd
[99] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, paragraff 179

**136.** Dywedodd Stephen Devlin o'r New Economics Foundation a'r Athro Tim Lang, Prifysgol y Ddinas, Llundain, y dylai Cymru gynhyrchu a bwyta rhagor o lysiau am resymau'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Dywedodd yr Athro Lang:

> "When you're thinking about the environmental challenges that we have to face up to, basically the biggest thing that we have to overcome to bring down the environmental impact of farming is to reduce how much meat we eat. So, what we produce is going to have to change in the long run, in the UK and everywhere… in the long run, if we want to preserve the integrity of our environment, there is going to have to be a transition away from producing so much meat."[100]

**137.** Gan ymateb i gwestiwn am y posibilrwydd o dyfu rhagor o ffrwythau a llysiau, soniodd NFU Cymru am yr her o wneud hynny yng Nghymru oherwydd natur y pridd mewn rhai ardaloedd. Ychwanegodd:

> "For certain parts of Wales the soils are a bit thin, especially in mid Wales and parts of Pembrokeshire where I live. Some of the soil we've got is only about three or four inches and that's not because it's washed away because, always in my lifetime, it's grass that's been growing on it, so it's not washing away."[101]

### Caffael cyhoeddus

**138.** Awgrymodd rhanddeiliaid fod angen rhagor o gymorth gan y Llywodraeth i ddatblygu diwylliant cynhyrchu bwyd o safon, yng Nghymru, a hwnnw'n dod o ffynonellau lleol ac yn cael ei gynhyrchu drwy ddulliau cynaliadwy, drwy gyfrwng arferion caffael y sector cyhoeddus. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru:

> "Governments should proactively support UK food and farming through their own procurement policies, and by ensuring competition rules favour rather than disadvantage UK industries."[102]

**139.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru y gallai'r polisi hwn hefyd sicrhau manteision iechyd a lleihau allyriadau carbon:

> "The availability and affordability of a good balanced diet is crucial to physical and mental health and well-being - we should be looking to maximise availability of local food and support local producers through our procurement practices."[103]

---

[100] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 28 Medi 2016, paragraff 143
[101] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, paragraff 61
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## Ein barn ni

Credwn fod cyfle i Gymru ddod yn wlad cynhyrchu bwyd sy'n fwy cydnerth a hunanddibynnol.

Dylai cynhyrchu bwyd fod yn elfen sylfaenol o bolisïau rheoli tir yn y dyfodol. Yn hynny o beth, dylid cefnogi cynhyrchwyr bwyd, ffermwyr ac amaethu cynaliadwy drwy unrhyw newidiadau i bolisïau o'r fath.

Mae gan Gymru enw da am gynnal safonau uchel o ran yr amgylchedd a lles anifeiliaid wrth gynhyrchu ein bwyd. Wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gallai hynny olygu newidiadau i fframweithiau rheoleiddiol cynhyrchu bwyd. Byddem yn croesawu cael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen. Fodd bynnag, credwn fod y safonau uchel presennol o ran yr amgylchedd ac iechyd anifeiliaid yn hollbwysig i lwyddiant ein cynhyrchwyr bwyd a rhaid eu cynnal yn y dyfodol.

Credwn y dylid cadw'r safonau sy'n cael eu cynnal gan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd o ran yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau bod cynhyrchwyr Cymru yn gallu cael mynediad i'r Farchnad Sengl ond bydd hefyd yn sicrhau enw da ac ansawdd cynhyrchion bwyd Cymru.

Rydym hefyd yn dymuno gweld rhagor o gynnyrch lleol ar gael yng Nghymru. Mae gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd yn arwain y ffordd yn dangos sut y gall cynhyrchwyr lleol feithrin diwylliant bwyd sy'n cyfoethogi'r economi wledig.

Rhaid i Lywodraeth Cymru annog diwylliant bwyd yng Nghymru sy'n rhoi gwerth ar gynhyrchu lleol, sy'n lleihau milltiroedd bwyd, gan arwain at ôl-troed carbon isel, safonau cynhyrchu uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid, a rhagor o lysiau a gynhyrchir yn lleol.

Mae cyfle i gynyddu swm y cynnyrch Cymreig sy'n cael ei gaffael yn gyhoeddus. Dylid ffrwyno a chyfeirio pŵer prynu'r sector cyhoeddus i gefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd yng Nghymru, a fydd, yn ei dro, yn cefnogi cymunedau gwledig a'r economi wledig.

Mae angen i gynhyrchu bwyd esblygu o hyd i ymateb i'r newidiadau yn y galw. Dylai unrhyw system sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn y dyfodol ystyried cyfleoedd i gynyddu cynnyrch garddwriaethol yng Nghymru a dulliau eraill o arallgyfeirio.

## Argymhellion:

**Argymhelliad 20.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu diwylliant bwyd yng Nghymru sy'n; rhoi gwerth ar gynnyrch lleol; lleihau milltiroedd bwyd ac ôl-troed carbon; a diogelu safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Dylai hyn sicrhau mynediad i'r Farchnad Sengl i'n cynhyrchwyr ac yn cynnal ein henw da am nwyddau o ansawdd uchel a wnaed yng Nghymru.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru anelu at gynyddu'r cynnyrch o Gymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus ac adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar lefelau caffael presennol a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr bwyd yng Nghymru i gynyddu gwerthiant cynnyrch o Gymru, gan gynnwys llysiau, ac adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf.

# Coedwigaeth a choetiroedd

**140.** Ystyriodd y Pwyllgor ar y cyd â rhanddeiliaid y potensial ar gyfer plannu mwy o goetiroedd yn gyffredinol yng Nghymru a chymell ffermwyr i blannu coed ar eu tir.

**141.** O ran cynyddu'r gorchudd coed yng Nghymru, clywodd y Pwyllgor safbwyntiau croes i'w gilydd ynghylch i ba raddau y gallai Cymru gynyddu arwynebedd ei thir sydd dan orchudd coetiroedd a choedwigoedd. Roedd Confor yn dadlau bod coedwigaeth yn gallu darparu nifer o wasanaethau'r ecosystem a'i bod yn fwy proffidiol nag amaethyddiaeth yn yr hirdymor, ac felly bod angen llai o gymhorthdal ar ffurf arian cyhoeddus arni.[104] Roedd Confor a Coed Cadw yn dadlau y dylid plannu rhagor o goed yn y 'mannau iawn' oherwydd bod coetiroedd yn gallu sicrhau'r canlyniadau sydd o fudd i gymunedau a'r gymdeithas ehangach.

**142.** Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn dadlau yn erbyn newid yn y ffocws yn sylweddol oddi wrth amaethyddiaeth ac at goedwigaeth oherwydd yr effaith y byddai hynny'n ei chael:

> "We do need to be very careful as well, though, that we do not return to the sort of destruction, be it destruction of environment and, indeed, of communities, that we saw in the post-war period and the period between the wars, because we saw vast areas where there were scores and scores of huge estates sold and planted, and effectively we had displacement of entire communities and habitats."[105]

**143.** Pwysleisiodd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd ei bod yn bwysig dileu rhwystrau rhag plannu ar ffermydd, gan ddweud:

> "[…] we absolutely need to find commercial uses for what might be termed as 'less commercial forestry'. There's a great deal of that that has been planted, and there needs to be more investment in finding those uses, even if it is simply for biomass, which is incredibly important given where we are with carbon. There are certainly opportunities for farmers to invest in order to increase our forestry stock, absolutely, and there are barriers that need to be removed."[106]

## Ein barn ni

Credwn y dylid ystyried eto, fel rhan o strategaeth goetiroedd gyffredinol i Gymru, i ba raddau y dylid cynnig cymhellion ar gyfer coedwigaeth fasnachol mewn unrhyw gynlluniau rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol.

Dylai'r strategaeth goetiroedd honno ymdrin â dulliau o ddileu datgymhellion i blannu ar ffermydd a rheoli coetiroedd.

Mae cryn botensial ym myd ffermio a rheoli tir i gynyddu'r gorchudd o goetir yng Nghymru.

Cyn bo hir bydd y Pwyllgor hwn yn cynnal ymchwiliad llawn i bolisi coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion manwl fel rhan o'r gwaith hwnnw.

---

[104] Tystiolaeth ysgrifenedig Confor
[105] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, paragraff 298
[106] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, para 298

## Bioamrywiaeth

**144.** Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn credu bod yn rhaid i adfer a gwarchod natur fod yn un o amcanion allweddol polisi rheoli tir yn y dyfodol er mwyn i Gymru gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol a domestig ac atal colli bioamrywiaeth. Er enghraifft, soniodd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn benodol am ddau ymrwymiad:

> "Post-CAP policies must deliver on international agreements and commitments. For example… the six objectives set in the Nature Recovery Plan for Wales (2015) and … the **Convention on Biological Diversity Aichi** target 17[107]. In particular, a sustainable land management scheme should put in place mechanisms which support specific interventions for threatened species, habitats and protected sites."[108]

**145.** Chwe amcan Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru[109] yw:

- ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel;
- diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well;
- gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd;
- mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd;
- gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro; a
- rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.

**146.** Cafodd y Pwyllgor dros 300 o ymatebion union debyg i'r ymchwiliad hwn gan Aelodau'r RSPB yn galw am gyllid yn y dyfodol i gefnogi bioamrywiaeth, gan ddweud:

> "We know that the diversity of our wildlife is in severe decline and that our environment, on which we all depend, is degraded. Unsustainable farming practices, driven by bad policies, have been one of the principal causes of this decline. Good food needs a thriving natural environment to grow and, when over 80% of our countryside is farmed, it's obvious that farmland must have space for wildlife too…. I urge you to continue this good work and to support a policy that:
>
> 1 Both focuses on nature and supports sustainable food production and other land use.
>
> 2 Helps vulnerable and rare species and makes once common species common again.

107 Confensiwn ar amrywiaeth fiolegol Aichi
108 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyswllt Amgylchedd Cymru
109 Cynllun Adfer Natur Cymru, Llywodraeth Cymru

3. Secures enough financial support for farmers and land managers to help protect nature and support land use."

**147.** Fel y disgrifiwyd ym mhennod 6, dysgodd dirprwyaeth o'r Pwyllgor ragor am lwyddiant Rhaglen Burren[110] yn Iwerddon, sef cynllun sy'n talu i ffermwyr am ganlyniadau ac sy'n cynnig cymhellion i wella bioamrywiaeth. Er enghraifft, asesir pob cae cymwys bob blwyddyn gan gynghorydd fferm drwy ddefnyddio rhestri wirio i fesur 'iechyd cynefin'.

**148.** Cododd nifer o'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad y mater o ddad-ddofi tir. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod perygl i bobl feddwl mai gadael tir fel y mae yw ystyr dad-ddofi ond, yn ei farn ef, mae'n well meddwl am ddad-ddofi fel ailgyflwyno swyddogaethau'r ecosystem i'r dirwedd. Roedd Coed Cadw yn dadlau mai dad-ddofi tir yn y DU yw'r continwwm o gamau i adfer cynefin naturiol, ac y gallai hyn gynnwys camau i atal erydu pridd a rhagor o hidlo dŵr. Dywedodd:

> "In the uplands, we're perhaps looking at, not more woodland, but a more equitable restoration of an ecosystem, so that it's a functioning ecosystem, so that it stops the water running off and taking all the soil off. That is what rewilding means."[111]

**149.** Dywedodd yr NFU wrth y Pwyllgor nad oedd yn anghytuno â math o ddad-ddofi, ond bod yn rhaid cydbwyso hynny ag anghenion cynhyrchu bwyd.[112]

## Ein barn ni

Dylai dull yn seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy gefnogi ymyriadau penodol ar gyfer rhywogaethau, cynefinoedd a safleoedd gwarchodedig dan fygythiad a hefyd hyrwyddo dull gofodol o reoli'r dirwedd. Rydym yn cytuno y dylai dad-ddofi tir gael ei weld yn rhan o gontinwwm o gamau i adfer ecosystemau sydd wedi'u difrodi lle bo hynny'n briodol.

Credwn y dylai cyllid ar gyfer rheoli tir yn y dyfodol fod yn gymhelliant i gyflawni canlyniadau sy'n cefnogi ac yn gwella bioamrywiaeth. Dylai unrhyw ddull o'r fath gefnogi'r broses o gyflawni amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru.

## Argymhelliad:

**Argymhelliad 23.** Dylai cyllid ar gyfer rheolwyr tir yn y dyfodol gefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth yng Nghymru yn ogystal â hyrwyddo dull gofodol o reoli tir. Dylai unrhyw ddull o'r fath gefnogi amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru.

[110] Rhaglen Burren
[111] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, paragraff 391
[112] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, paragraff 285

# Mynediad i'r dirwedd

**150.** Mae prydferthwch cefn gwlad Cymru yn ffactor hollbwysig i hybu twristiaeth, i hamdden ac i gefnogi'r economi wledig.

**151.** Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru mai un o agweddau allweddol y profiad a gaiff ymwelwyr yn y Gymru wledig yw ei "dilysrwydd".[113] Dywedodd nad oedd modd cynnal y diwydiant twristiaeth yn yr hirdymor heb amaethyddiaeth hyfyw a'r polisïau amgylcheddol cywir.[114] Gofynnodd am ddull cyfannol o gynllunio polisi yn y dyfodol:

> "Tourism should be given equal status alongside agriculture, in all considerations relating to rural development. Secondly, that symbiotic relationship should be held up as an exemplar of sustainable living. Which other countries might seek to emulate in a rapidly changing post-industrial world."[115]

**152.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y dylai system gymorth yn y dyfodol gymell mynediad i gefn gwlad. Soniodd y Cerddwyr, Cynghrair Twristiaeth Cymru ac NFU Cymru am y manteision ehangach i dwristiaeth ac iechyd, sy'n deillio o bolisïau rheoli tir sy'n hyrwyddo mynediad i gefn gwlad.

**153.** Cyfeiriodd y Cerddwyr at y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran y dulliau presennol o drawsgydymffurfio a sicrhau mynediad. Dywedodd ei bod yn rhaid i ffermwyr yn Lloegr gynnal mynediad i dir fel rhan o'r gofynion trawsgydymffurfio er mwyn cymhwyso ar gyfer taliadau uniongyrchol. Nid yw'r un peth yn wir yng Nghymru.[116] Nid yw cynnal mynediad yn rhan o ofynion trawsgydymffurfio yng Nghymru, ond rhoddir cymhellion ariannol i dirfeddianwyr ddarparu mynediad i'w tir drwy gyfrwng cynllun gwirfoddol Glastir. Aeth y Cerddwyr ymlaen i ddweud:

> "[…] what we would like to see is going down the route more of England, which is more of the cross-compliance to help us actually deal with the network that we currently have, which isn't being as supported as it should be, and that's across all areas. So, that is an opportunity that we see that Wales has to actually improve on that."[117]

**154.** Yn 2015 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar 'Gwella cyfleoedd i gael mynediad at yr awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol'.[118] Mewn datganiad ar 13 Chwefror 2017 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig fod yr ymgynghoriad yn dangos yr ystod eang o weithgareddau awyr agored sy'n digwydd ar draws Cymru ond datgelwyd hefyd yr heriau sy'n wynebu rheolwyr tir a'r diffygion a'r anghysondebau yn y system bresennol. Aeth yn ei blaen i gyhoeddi cynlluniau i ymgynghori ynghylch cynigion i sicrhau bod cyfreithiau mewn perthynas â mynediad yn fwy cyson; symleiddio gweithdrefnau ar gyfer dynodi a chofnodi mynediad cyhoeddus, a gwella cyfathrebu ynghylch hawliau a chyfrifoldebau tramwy.[119]

---

[113] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, paragraff 263
[114] Tystiolaeth ysgrifenedig Cynghrair Twristiaeth Cymru
[115] Tystiolaeth ysgrifenedig Cynghrair Twristiaeth Cymru
[116] https://www.gov.uk/guidance/guide-to-cross-compliance-in-england-2016/gaec-7b-public-rights-of-way
[117] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2017, paragraff 183
[118] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Gorffennaf-Hydref 2015
[119] Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 13 Chwefror 2017

## Ein barn ni

Dylai dull rheoli tir sy’n seiliedig ar ganlyniadau annog a gwella mynediad i’r cyhoedd i gefn gwlad.

Mae diwydiant twristiaeth ffyniannus Cymru yn dibynnu ar gynnal prydferthwch ein tirwedd. Mae hyn, yn ei dro, yn dibynnu ar sut y caiff ei reoli gan reolwyr tir. Rydym eisiau gweld mynediad i gefn gwlad yn parhau ac yn gwella er mwyn i’r diwydiant twristiaeth allu adeiladu ar ei lwyddiant o ran creu economi dwristiaeth sy’n parhau gydol y flwyddyn.

Mae mynediad i’r dirwedd at ddibenion hamdden yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at iechyd y cyhoedd, drwy gynyddu cyfleoedd i fwynhau’r awyr agored. Mae sicrhau mynediad i’r dirwedd a’i chynnal hefyd yn cefnogi cymunedau gwledig lleol sy’n elwa yn sgil amaethyddiaeth a thwristiaeth.

## Argymhelliad:

**Argymhelliad 24.** Rydym yn argymell bod cymorth i reolwyr tir yng Nghymru yn y dyfodol yn gwobrwyo rheolwyr tir am wella mynediad i gefn gwlad. Dylai’r cyllid hefyd adlewyrchu i ba raddau y mae llwybrau mynediad yn cael eu cynnal a’u cadw a’u hyrwyddo.

## Bywyd cefn gwlad

**155.** Mae ffermwyr a rheolwyr tir yn ganolog i gymunedau gwledig bywiog. Er y bydd llawer o ffactorau eraill yn dylanwadu ar a fydd cymuned wledig yn ffynnu ai peidio, gan gynnwys mynediad i wasanaethau cyhoeddus, a mentrau polisi ehangach, megis sicrhau bod band eang ar gael, mae ffermwyr a rheolwyr tir yn hollbwysig i'r economi leol ac mae hyn, yn ei dro, yn cynnal cymunedau gwledig bywiog. Esboniodd Undeb Amaethwyr Cymru:

> "A third of Wales' population live in rural areas where farming, and businesses which rely on agriculture, play an important role in local economies; in sparsely populated areas, where centres of population have fewer than 2,000 people, around 10% of workers are employed in agriculture – equivalent to 14% of those employed outside the public sector."[120]

**156.** Darperir cymorth i gymunedau gwledig ar hyn o bryd drwy gynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer cymunedau a busnesau cefn gwlad a rheoli tir yn gynaliadwy. Rhaid i aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd wario 10% o'u cyllideb datblygu gwledig ar gynlluniau LEADER[121], sy'n cael eu hategu gan ffocws ar ddatblygu strategaethau lleol a dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau gwelliannau cymdeithasol ac economaidd.

**157.** Dywedodd y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd ei fod yn poeni nad oes gan y cynlluniau datblygu gwledig mewn ardaloedd economaidd mwy ymylol, fel Cymru, y capasiti strwythurol i fanteisio ar y cyllid a'r cymorth sydd ar gael, ond ei gasgliad oedd bod model LEADER yn un sy'n ennyn parch ac y dylid lledaenu arferion da.[122]

**158.** Clywsom hefyd am bwysigrwydd cymunedau gwledig bywiog o ran cynnal diwylliant ac iaith unigryw Cymru. Pwysleisiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chynghrair Twristiaeth Cymru i gyd bwysigrwydd defnyddio polisïau datblygu gwledig i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant. Dywedodd Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd:

> "A central part of any new rural development programme should be … to ensure job creation and growth in rural areas, including maintaining Welsh speaking cultures."[123]

**159.** Mapiwyd dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011 gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y mapio'n dangos bod cymunedau sydd â dros 30%, 50% a 70% siaradwyr Cymraeg wedi'u crynhoi mewn ardaloedd gwledig yn bennaf yn y gogledd a'r gorllewin.

**160.** Disgrifiodd Undeb Amaethwyr Cymru i ba raddau y caiff y Gymraeg ei chefnogi gan y sector amaethyddol mewn cymunedau gwledig:

> "Agriculture also makes an invaluable contribution to Wales' culture; the per-head contribution of 'Agriculture, energy and water' workers to all Welsh

[120] Tystiolaeth ysgrifenedig FUW
[121] LEADER, Llywodraeth Cymru
[122] Tystiolaeth ysgrifenedig y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd
[123] Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Caerdydd

speakers is 78% higher than for all categories, and has the highest percentage of Welsh speakers across Wales at 29.5%."[124]

### Barn Llywodraeth Cymru

**161.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet effaith ehangach y sector amaethyddol, a dywedodd fod hyn yn rhywbeth y byddai'n ei bwysleisio mewn trafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Dywedodd:

> "The agricultural sector probably uses the Welsh language more than any other sector in Wales. We certainly recognise the importance of that but it's up to us to make sure that she is aware of it …"

**162.** Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru a ddaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

> "Certainly, at official level…we've made the point that agriculture goes wider than just the sheer commodity element."[125]

## Ffermio mewn ardaloedd ymylol

**163.** Ystyrir cyfran helaeth o'r tir amaethyddol yng Nghymru yn 'ardal lai ffafriol', neu'n dir mewn ardal lai ffafriol. Porfeydd glaswellt yw 75% o'r tir a ddefnyddir yng Nghymru, ac mae 80% o'r hwn yn dir mewn ardal lai ffafriol. Yn ôl Undeb Amaethwyr Cymru, dim ond 5% o dir Cymru a ddefnyddir ar gyfer cnydau a garddwriaeth.[126]

**164.** Nodweddir y sector yn Lloegr gan gyfran sylweddol uwch o amaethu cnydau ar ddaliadau mwy o faint sy'n cynhyrchu mwy na'r incwm cyfartalog. Tyfir cnydau yn unig ar 55% o dir amaethyddol Lloegr.[127]

**165.** Oherwydd y dirwedd fynyddig a'r hinsawdd wlypach yng Nghymru, mae amaethyddiaeth yn canolbwyntio'n helaeth ar bori da byw, defaid yn benodol, ar dir mewn ardaloedd llai ffafriol ac yn cynnwys ffermydd cymharol fach ag hincwm cymharol isel. Pwysleisiodd Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant a Tegwch i'r Ucheldir bwysigrwydd taliadau uniongyrchol o ran cynnal incwm ffermydd yn yr ardaloedd ymylol hyn.

**166.** Dywedodd Tegwch i'r Ucheldir wrthym am yr heriau sy'n wynebu ffermwyr yr ucheldir:

> "Area payments should be focused on compensating vulnerable upland areas because of the extra costs associated with shorter grazing seasons due to poorer quality soil and lower temperatures. Support payments should continue for upland areas focusing on pastoral agriculture producing high quality food alongside meeting strict environmental guidelines."

## Ein barn ni

Os yw Cymru am gael cymunedau gwledig bywiog a ffyniannus, rhaid cefnogi a diogelu'r sector amaethyddol.

---

[124] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
[125] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 1 Chwefror 2017, paragraffau 238 a 241
[126] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
[127] https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/structure-of-the-agricultural-industry-in-england-and-the-uk-at-june

Mae cymunedau gwledig yn hollbwysig i ddiwylliant a hunaniaeth sy'n ffynnu yng Nghymru - mae cefnogi'r sector amaethyddol yn cael effaith ehangach ac ni ddylid anwybyddu hynny Rydym yn cydnabod natur hollbwysig cymunedau gwledig i'r defnydd o'r Gymraeg a'u cyfraniad at gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i un filiwn erbyn 2050.

Mae traddodiad ucheldir Cymru yn cynrychioli amgylchedd diwylliannol ac economaidd unigryw y dylid ei drysori. Rhaid i unrhyw ddull o ddarparu cymorth ariannol yn y dyfodol gydnabod hyn a diogelu ei barhad.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr agweddau unigryw hyn ar fywyd gwledig Cymru yn cael eu pwysleisio yn ystod y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar unrhyw gyllid neu fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol.

Rhaid iddi wneud hyn er mwyn sicrhau y gall ein cymunedau gwledig barhau i ffynnu

## Argymhellion:

**Argymhelliad 25.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn y dyfodol yn cwmpasu arferion gorau cynlluniau presennol megis LEADER er mwyn sicrhau na chaiff gwersi a buddsoddiad hollbwysig eu colli pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 26.** Yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU rhaid i Lywodraeth Cymru bwysleisio i ba raddau y mae cymorth i amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn sail i hyfywedd cymunedau gwledig a diwylliant ac iaith Cymru, sydd felly'n atgyfnerthu'r angen i barhau â'r lefelau cymorth presennol.

# Atodiad A - Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

**Enw / Sefydliad**

Y Cerddwyr

RSPB Cymru

Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop

Undeb Amaethwyr Cymru

Pori Natur a Threftadaeth - PONT

Cwmni Buddiannau Cymunedol Rhwydwaith Calon Cymru

One Planet Council

Tegwch i'r Ucheldir

Cymdeithas Tenantiaid Cwm Elan

Unigolyn

Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

Cynghrair Twristiaeth Cymru

Confor

Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Unigolyn

Unigolyn

Dŵr Cymru

Cymdeithas y Pridd a'r Ganolfan Ymchwil Organig

Hybu Cig Cymru (HCC)

Coed Cadw

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Eryri

Prifysgol De Cymru

The Cnewr Estate Ltd

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru

Canolfan CFfI Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Dros 300 o ymatebion unigol o dan y pennawd ‘Bwyd a Ffermio Cymru’

Crynodeb o ymatebion ‘Dialogue’

# Atodiad B – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: Trawsgrifiadau

**22 Medi 2016** - Ymweliad â Cheredigion
28 Medi 2016

| Tyst | Sefydliad |
|---|---|
| Yr Athro Janet Dwyer | Countryside and Community Research Institute |
| Yr Athro Peter Midmore | Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth – Prifysgol Aberystwyth |
| Yr Athro Tim Lang | Centre for Food Policy – City University |
| Stephen Devlin | New Economics Foundation |
| Dr Katherine Foot | Ysgol Rheolaeth Tir ac Eiddo – y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol |
| Dr Ian Grange | Royal Agricultural University |

**20 Hydref 2016** - Gweithdy rhanddeiliaid – Bae Caerdydd
**24 Tachwedd 2016** - Ymweliad ag Eryri
12 Ionawr 2017

| Tyst | Sefydliad |
|---|---|
| Dai Davies | Hybu Cig Cymru |
| Stephen James | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Arfon Williams | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Adrian Barsby | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Angela Charlton | Y Cerddwyr |
| Nick Fenwick | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Tony Davies | Tegwch i'r Ucheldir |
| Martin Bishop | Confor |
| Frances Winder | Coed Cadw |
| Tim Peppin | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) |
| Y Cynghorwr Jamie Adams | |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorwr Goronwy Edwards | |
| Dafydd Gruffydd | Rheolwr Busnes ar gyfer LEADER yn Ynys Môn a Gwynedd |

1 Chwefror 2017

| **Tyst** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Lesley Griffiths AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru |
| Andrew Slade | Llywodraeth Cymru |
| Kevin Austin | Llywodraeth Cymru |
| Rhodri Asby | Llywodraeth Cymru |

Cafodd Andrea Leadsom AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a George Eustice AS, y Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu gwahodd i'n cyfarfodydd, ond nid oeddent yn gallu bod yn bresennol.